

# **Ystadegau Blynyddol gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (Prydain Fawr)**

---

**2021/ 2022**



## Cynnwys:

1	Crynodeb Gweithredol	4
2	Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol	6
3	Cyd-destun o ran Polisiâu	7
4	Cronfa ddata'r FfAD/DRF	7
5	Ynghylch yr adroddiad hwn	8
6	Nodiadau ar ddehongli	8
7	Gwybodaeth am GambleAware	9
8	Asesiad o gyflawnrwydd data FfAD/DRF 2021/22	10
9	Nodweddion Cleientiaid	11
9.1	Oedran a rhywedd Cleientiaid	11
9.2	Ethnigrwydd Cleientiaid	13
9.3	Statws perthynas Cleientiaid	14
9.4	Statws cyflogaeth Cleientiaid	15
9.5	Cyfeiriadedd rhywiol cleientiaid	16
9.6	Cyfrifoldeb am blant	17
9.7	Crefydd cleientiaid	17
9.8	Proffil gamblo	18
9.8.1	Lleoliadau gamblo	18
9.8.2	Gweithgareddau gamblo	18
9.8.3	Hanes gamblo	20
9.8.4	Arian sy'n cael ei wario ar gamblo	23
9.8.5	Math y gamblo yn ôl oedran	26
9.8.6	Lleoliad gamblo yn ôl rhywedd	27
9.8.7	Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig	28
9.8.8	Gamblo yn ôl statws perthynas	29
9.8.9	Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth	30
9.9	Defnyddio dulliau hunan-eithrio	30
10	Mynediad at wasanaethau	31
10.1	Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer triniaeth	31
10.2	Yn lle y clywyd am y gwasanaeth	32
10.3	Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf	33
11	Ymgysylltiad	33
11.1	Cyfnod yr amser yn derbyn triniaeth	35
12	Canlyniadau triniaeth	35
12.1	Y rhesymau dros adael triniaeth	36
12.2	Sgorau difrifoldeb	38
12.2.1	Y sgorau sylfaenol a'r rhai diweddaraf ar gyfer difrifoldeb	39
12.2.2	Newid mewn sgorau difrifoldeb	43
12.2.2.1	MDGP	43
12.2.2.2	CORE-10	45
13	Tueddiadau	47
13.1	Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth	47

14	Atodiadau	53
14.1	Eitemau data FfAD / DRF	53
14.1.1	Tabl Unigolion	53
14.1.1.1	Codau Tablau Unigolion	53
	P-F Rhyw:	54
	P-B Statws Cyflogaeth:	54
	P-C Statws Perthynas:	55
	P-D Cefndir Ethnig:	55
	P-E Diagnosis ychwanegol cleient:	56
	P-G Cyfeiriadedd Rhywiol:	56
	P-H Plant:	56
P-	57	
14.1.2	Tabl Hanes Gamblo	58
14.1.2.1	Codau Hanes Gamblo	60
	G-A Gweithgareddau a Lleoliadau Gamblo:	60
	G-B Colli swydd oherwydd gamblo	62
	G-C Perthynas yn chwalu oherwydd gamblo	62
	G-D Ennill swm mawr o arian yn gynnar	62
	G-E Dyled oherwydd gamblo	63
	G-F Amser a dreulir yn gamblo – yn y 30 diwrnod blaenorol:	63
	G-G Amser a dreulir yn gamblo – y cyfartaledd dyddiol dros y 30 diwrnod diwethaf:	63
	G-H Arian a gaiff ei wario ar gamblo – y cyfartaledd dyddiol dros y 30 diwrnod diwethaf:	63
	G-J Y defnydd o ddulliau hunan-eithrio ar adeg yr asesiad:	63
14.1.3	Tabl Atgyfeirio	64
14.1.3.1	Codau Atgyfeirio	64
	R-A Ffynhonnell yr atgyfeiriad	64
	R-F Yn lle y clywyd am y gwasanaeth (ar gyfer hunanatgyfeiriadau)	65
	R-B Dangosydd derbyn atgyfeiriad	65
	R-C Rheswm dros yr atgyfeiriad	65
	R-D Triniaeth flaenorol ar gyfer gamblo:	66
	R-E Rheswm Dros Orffen	66
	R-G Haen Driniaeth	67
14.1.4	Tabl Apwyntiadau	67
14.1.4.1	Codau Apwyntiadau	67
	A-A Presenoldeb	67
	A-E Lleoliad y Driniaeth	68
	A-B Pwrpas yr Apwyntiad	68
	A-C Cyfrwng yr apwyntiad	68
	A-F Mynychwyr triniaeth	69
	A-D Ymyrraeth a roddwyd:	69
	A-G Y defnydd o ddulliau hunan-eithrio ers yr apwyntiad diwethaf:	69
14.3	CORE-10	71

# 1 Crynodeb Gweithredol

## Nodweddion y cleient

- Cafodd cyfanswm o 7,072 o unigolion eu trin o fewn y Gwasanaethau Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (sy'n adrodd i'r Fframwaith Adrodd Data (FfAD/DRF)) ym Mhrydain Fawr rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.
- Roedd hyn yn cynnwys 5,996 o bobl a oedd yn profi ymddygiad gamblo problemus, a 1,076 o bobl a oedd yn cael eu heffeithio gan arferion gamblo rhywun arall ('rhai eraill a effeithir') neu mewn perygl o ddatblygu ymddygiad gamblo problemus.
- Roedd mwyafrif helaeth y cleientiaid (70%) yn nodi eu bod yn wrywod.
- Roedd tri chwarter (75%) y cleientiaid yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed, sy'n cyfrif am gyfanswm o 39% o gleientiaid.
- Roedd 88% o gefndir ethnig gwyn, gan gynnwys 76% a oedd yn Wyn Prydeinig a 5% a oedd yn Wyn Arall. Y cefndiroedd ethnig mwyaf cyffredin a adroddwyd wedyn oedd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (6%), a Du neu Ddu Prydeinig (3%) neu Gymysg (3%).
- Roedd mwyafrif y cleientiaid mewn perthynas (36%) neu'n briod (27%). Roedd 30% yn sengl, 4% wedi gwahanu a 2% wedi cael ysgariad.
- Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid yn gyflogedig (73%), gyda 11% yn nodi eu bod yn byw gyda salwch hirdymor a/neu anabledd ac nad oeddent yn gweithio, roedd 9% yn ddi-waith, roedd 3% yn nodi eu bod yn gofalu am aelodau teulu/y cartref ac nad oeddent yn gweithio, roedd 2% wedi ymddeol, ac roedd 2% yn fyfyrwyr.
- Roedd cyfran y cleientiaid a oedd yn ceisio cael cymorth o ganlyniad i arferion gamblo rhywun arall wedi cynyddu o 10% yn 2015/16 i 14% yn 2021/22.
- Roedd cyfran y cleientiaid benywaidd a oedd yn gamblo wedi cynyddu o 13% yn 2015/16 i 21% yn 2021/22.

## Ymddygiad gamblo

- Roedd sgorau'r Mynegai Dirifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI)<sup>1</sup> yn dangos bod y mwyafrif o gleientiaid sy'n gamblo (92%) yn cael eu dosbarthu'n 'bobl â phroblem gamblo', fel y diffinnir gan y raddfa hon (h.y. roedd ganddynt sgôr o wyth neu fwy) ar adeg eu hasesiad cychwynnol ar gyfer derbyn triniaeth.
- Y lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer gamblo oedd ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 75% o gleientiaid. Siopau betio oedd y lleoliad mwyaf cyffredin wedyn, a ddefnyddir gan 30% o bobl sy'n gamblo. Roedd yn amlwg fod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn uwch ymysg grwpiau oedran iau.
- Rhwng 2015/16 a 2021/22, roedd y gyfran a oedd yn adrodd am ddefnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein wedi cynyddu o 57% i 75%. Yn yr un cyfnod, roedd y gyfran a oedd yn defnyddio siopau betio wedi gostwng o 56% i 30%.
- Ymysg gwasanaethau ar-lein, y gweithgaredd mwyaf cyffredin oedd gamblo drwy slotiau casino (38% o gymharu â 32% yn 2020/21), a ddilynwyd gan ddigwyddiadau chwaraeon (20% o gymharu â 27% yn 2020/21) a gemau bwrdd casino (12% o gymharu â 21% yn 2020/21).

<sup>1</sup> Gweler yr Atodiad, adran 13.2

- Ymysg siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo (17%), a ddilynwyd gan ddigwyddiadau chwaraeon (10%) a cheffylau (7%).
- O gymharu â phobl Wyn neu Wyn Prydeinig sy'n gamblo, roedd y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (44% o gymharu â 30%) neu gasinos (17% o gymharu â 7%). Roedd y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (44%) neu gasinos (17%).
- Roedd mwyafrif y bobl sy'n gamblo (63%) yn adrodd bod ganddynt ddyled oherwydd eu gamblo. Roedd 11% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo, ac roedd 26% wedi cael profiad o berthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo. Ar adeg cyflwyno i wasanaethau gamblo, roedd cleientiaid yn adrodd eu bod wedi dechrau gamblo, ar gyfartaledd (canolrif), 10 mlynedd ynghynt.
- Y gwariant canolrifol a adroddwyd gan bobl a oedd wedi bod yn gamblo yn y 30 diwrnod blaenorol cyn iddynt gael eu hasesu oedd £1,000, gyda 50% yn gwario mwy na hyn.

### Ymgysylltu â thriniaeth

- Roedd mwyafrif yr atgyfeiriadau i gael triniaeth yn cael eu gwneud gan y Llinell Gymorth Gamblo Genedlaethol (57%), a ddilynwyd gan hunanatgyfeiriadau (26%).
- O ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22, cafodd 50% eu hapwyntiad cyntaf o fewn pum diwrnod ar ôl cysylltu, a 75% o fewn 12 diwrnod.
- Ymysg y rheiny sy'n derbyn ac yn gorffen eu triniaeth o fewn 2021/22, roedd y driniaeth yn para am gyfartaledd (canolrif) o 10 wythnos. Yn gyffredinol, derbyniodd y cleientiaid ganolrif o wyth apwyntiad o fewn eu cyfnod o driniaeth.

### Canlyniadau'r driniaeth

- Ymysg y cleientiaid y daeth eu triniaeth i ben yn ystod 2021/22, cwblhaodd y mwyafrif (63%) y driniaeth a drefnwyd. Mae hyn gynnydd o 59% yn 2015/2016, pan gasglwyd y data gyntaf.
- Roedd ychydig o dan draean ohonynt (30%) wedi gadael y driniaeth a drefnwyd cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen, a oedd yn ostyngiad o'r ganran o 35% yn 2015/16.
- Ymysg pobl sy'n gamblo, bu gwellhad yn y sgorau MDGP gyda chyfartaledd (canolrif) o 12 pwynt rhwng yr apwyntiad cynharaf a'r un olaf yn y driniaeth.
- Ar y pwynt diweddaraf yn y driniaeth, roedd gan 72% sgôr MDGP o lai nag 8 (y torbwynt ar gyfer diffinio rhywun yn 'gamlwr problemus' ar y raddfa MDGP), o gymharu ag 8% ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau yn y sgôr MDGP ar gyfer 80% o bobl sy'n gamblo, gan gynnwys 92% ymysg y rheiny a oedd wedi cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 62% o'r rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi.
- Ar ddiwedd y driniaeth, diffiniwyd bod 60% o gleientiaid yn 'is na'r torbwynt clinigol' ar raddfa CORE-10<sup>2</sup>, o gymharu â dim ond 20% a'r ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau yn y sgôr CORE-10 o ran 86% o gleientiaid a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 53% o'r rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi.

## 2 Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (GTGC/NGTS) yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu triniaeth a chefnogaeth gyfrinachol ar gyfer unrhyw un sy'n profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, naill ai fel rhywun sy'n gamblo neu rywun a effeithir gan arferion gamblo rhywun arall. Ceir mynediad i'r GTGC am ddim ledled Lloegr, yr Alban a Chymru. Comisiynir y GTGC gan GambleAware, sef elusen annibynnol sy'n dyfarnu grantiau ac yn mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus er mwyn lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Ble bynnag y mae rhywun yn cysylltu â rhwydwaith y GTGC, mae'r darparwyr yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd drwy lwybrau atgyfeirio i gyflawni'r pecyn gofal mwyaf addas.

Mae'r data ar gyfer y cyfnod 2021/22 a geir o fewn yr adroddiad hwn yn ymdrin â gwybodaeth a gyflwynwyd gan y sefydliadau a ganlyn, gyda manylion y gwasanaethau a ddarperir ganddynt wedi'u rhestru isod.

### Mae GamCare<sup>3</sup> a'i rwydwaith o bartneriaid yn cynnig:

- Triniaeth ar-lein a gefnogir gan gysylltiad rheolaidd â therapydd, sydd ar gael ar adegau ac mewn manau sy'n gyfleus i'r cleient dros gyfnod o wyth wythnos.
- Cymorth a thriniaeth therapiwtig un-i-un, wyneb-yn-wyneb, ar-lein a thros y ffôn ar gyfer pobl â phroblemau gamblo, yn ogystal â ffrindiau ac aelodau teulu sy'n cael eu heffeithio gan gamblo.
- Cyrsiau Adfer Gamblo a gyflwynir wyneb-yn-wyneb neu ar-lein dros gyfnod o rhwng chwech i wyth wythnos.

### Mae Cymdeithas Gordon Moody yn cynnig:

- Canolfannau Triniaeth Preswyl – dwy ganolfan arbenigol unigryw, sy'n darparu rhaglen driniaeth breswyl ddwys ar gyfer dynion ag anhwylder gamblo dros gyfnod o 14 wythnos.
- Tai/Llety Adferiad - llety arbenigol i'r rheiny sydd wedi cwblhau'r rhaglenni triniaeth ond sydd angen cymorth ychwanegol i'w hadfer rhag mynd yn ôl i'w hen arferion gamblo.
- Rhaglen Encilio a Chwrsela – rhaglenni encilio ar gyfer cohortau o ferched yn unig a cohortau o ddynion yn unig, sy'n cyfuno arosiadau preswyl byr gyda chymorth chwrsela yn y cartref.

### Mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol a Gogledd-orllewin Llundain (Clinig Trin Gamblo Problemus Llundain) yn cynnig:

- Gwasanaethau therapi ac adfer arbenigol ar gyfer pobl â dibyniaethau a effeithir gan ddiabyniaeth ar gamblo, yn ogystal â'r rheiny sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, fel iselder, gorbryder, trawma ac sy'n teimlo fel lladd eu hunain. Maent hefyd yn darparu help i bobl sy'n agos i'r rheiny sy'n gaeth i gamblo, fel aelodau teulu, partneriaid a gofalwyr.

### Mae Gwasanaeth Gamblo GIG Gogledd Lloegr, a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Partneriaeth Sefydledig GIG Leeds ac Efrog yn cynnig:

- Gwasanaethau therapi ac adfer arbenigol ar gyfer pobl â dibyniaethau a effeithir gan ddiabyniaeth ar gamblo, yn ogystal â'r rheiny sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, fel iselder,

<sup>3</sup> Yn ychwanegol, mae GamCare yn gweithredu'r Llinell Gymorth Genedlaethol sy'n cynnig sgysiau cymorth byw dros y ffôn ac ar-lein ac sy'n darparu cefnogaeth yn syth i unigolion ac atgyfeiriad i'r gwasanaeth triniaeth. Yn ogystal, mae GamCare yn cynnig gwybodaeth a chyngor drwy'u gwefan, fforymau a gymedrolir ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein ar gyfer grwpiau. Nid yw'r gwasanaethau hyn o fewn cwmpas y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

gorbryder, trawma ac sy'n teimlo fel lladd eu hunain. Maent hefyd yn darparu help i bobl sy'n agos i'r rheiny sy'n gaeth i gamblo, fel aelodau teulu, partneriaid a gofalwyr.

Mae angen i ddarparwyr triniaeth a ariennir gan GambleAware gyflwyno setiau data chwarterol mewn fformat safonol<sup>4</sup>. Sylfaen yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r cyflwyniadau hyn.

### 3 Cyd-destun o ran Polisiâu

Ar adeg cyhoeddi hwn, mae GambleAware ac eraill yn y sector yn disgwyl am gyhoeddi'r Papur Gwyn ar Gamblo sy'n amlinellu cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio Deddf Gamblo 2005. Mae GambleAware yn dadlau'n gryf dros gyflwyno ardoll orfodol ar y diwydiant gamblo y dylid ei chynnwys o fewn yr adolygiad. Byddai cynnwys ardoll o'r fath yn sicrhau cyllid hirdymor, cynaliadwy a thryloyw ar gyfer y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen i atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae'n debygol y bydd y Papur Gwyn sydd ar y gweill yn arwain at newidiadau i'r sector. Mae GambleAware wedi ymrwmo i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo fel mater iechyd cyhoeddus, a bydd yn parhau i wneud hynny wrth fynd ymlaen. Fel rhan o'n strategaeth sefydliadol ar gyfer 2021-2026, gwnaethom yr ymrwymiad a ganlyn, sef "gwella cydlyniaeth, hygyrchedd, amrywiaeth, ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol". Yn ein rôl ehangach fel comisiynydd strategol, rydym eisiau sicrhau ein bod yn gwella ein canlyniadau, ynghyd â'r modd yr ydym yn eu mesur, i sicrhau bod y system newydd o'r ansawdd gorau y gallai fod. Bydd y rôl arweinyddol hon hefyd yn sicrhau bod y sylw ar ddiogelwch defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod o'r pwys mwyaf, ac y cefnogir darparwyr triniaethau yn y dyfodol i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran sicrhau ansawdd eu gwasanaethau a'u gwella.

### 4 Cronfa ddata'r FfAD/DRF

Caiff y broses o gasglu data am gleientiaid sy'n derbyn triniaeth trwy'r GTGC ei rheoli trwy system a gydlynir yn genedlaethol o'r enw'r Fframwaith Adrodd Data ('Data Reporting Framework', DRF), a gychwynwyd yn 2015. Mae darparwyr gwasanaethau triniaeth yn casglu data am eu cleientiaid a'u triniaethau trwy systemau rheoli achosion pwrpasol, yn unol â'r FfAD. Darperir y data hwn wedyn dan ffugenw a chaiff ei uwchlwytho i system ganolog. Nodir eitemau data a gaiff eu casglu a'u huwchlwytho gan y darparwyr triniaeth ym Manyleb y FfAD<sup>5</sup>, a ddarperir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Cesglir data gan ddefnyddio pedwar tabl ar wahân sy'n darparu manylion am nodweddion cleientiaid, eu hanes o ran gamblo, manylion am atgyfeiriadau ac apwyntiadau. Mae'r FfAD yn creu set ddata graidd gydgyssylltiedig, a gesglir i ddarparu adroddiadau cyson y gellir eu cymharu ar lefel genedlaethol.

4 <https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drif-specification-june-16.pdf>  
5 [https://www.begambleaware.org/sites/default/files/2021-11/DRF%20Specification\\_2.94.pdf](https://www.begambleaware.org/sites/default/files/2021-11/DRF%20Specification_2.94.pdf)

## 5 Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwybodaeth am gleientiaid asiantaethau'r GTGC, ac yn darparu manylion am nodweddion cleientiaid, eu gweithgareddau a'u hanes o ran gamblo, ynghyd â thriniaethau a dderbynnir a'u canlyniadau. Fe'i cyfyngir i gleientiaid a oedd wedi mynychu o leiaf un apwyntiad ar gyfer eu hasesu, neu eu bod wedi derbyn triniaeth strwythuredig o fewn y cyfnod adrodd, ac felly nid yw'n cynrychioli holl weithgareddau'r asiantaethau sy'n adrodd, ac nid yw ychwaith yn dal gwybodaeth am unrhyw weithgareddau a gyflawnir gan unrhyw asiantaethau nad ydynt yn darparu adroddiadau ar gyfer y system FfAD. Mae'n darparu crynodeb a adroddir yn gyson, y gellir ei gymharu o un flwyddyn i'r llall. Yr asiantaethau sy'n adrodd i'r FfAD ar gyfer y flwyddyn 2021/2022 yw Gamcare, Gordon Moody, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol a Gogledd-orllewin Llundain (Clinig Trin Gamblo Problemus Llundain) a Gwasanaeth Gamblo GIG Gogledd Lloegr.

## 6 Nodiadau ar ddehongli

Bydd cyfansymiau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu symio i ddarparu amcangyfrif o lefelau triniaeth cenedlaethol. Ar lefel gwasanaeth, defnyddir codau cleientiaid i wahaniaethu un cleient o'r llall heb yr angen am wybodaeth i'w hadnabod, fel eu henw a'u dyddiad geni. Os yw cleientiaid yn mynychu mwy nag un gwasanaeth o fewn y cyfnod adrodd, fe gânt eu cyfrif gan bob gwasanaeth a fynychwyd ganddynt ac felly gellir eu 'cyfrif ddwywaith' o fewn y system. Felly dylid dehongli cyfanswm y nifer a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel amcangyfrif o union nifer y cleientiaid sy'n derbyn triniaeth o fewn asiantaethau sy'n cymryd rhan. Gellir amcangyfrif lefel y gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau trwy gynnwys cod dan ffugenw, sy'n cyd-fynd â llythrennau cyntaf enwau cleientiaid, ynghyd â'u dyddiad geni a'u rhywedd. Yn 2021/22, amcangyfrifwyd bod 119 (1.7%) o gleientiaid wedi'u hadrodd gan fwy nag un darparwr gwasanaeth.

Gall cleientiaid gwasanaethau triniaeth gamblo naill ai fod yn bobl sy'n profi ymddygiad gamblo problemus eu hunain, yn bobl a effeithir gan broblem gamblo rhywun arall yn anuniongyrchol (a elwir yn aml yn 'rai eraill a effeithir'), neu'n bobl sy'n ystyried eu bod nhw eu hunain mewn perygl o ddatblygu ymddygiad gamblo problemus. O fewn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfuno'r ail a'r trydydd o'r grwpiau uchod er mwyn categorio cleientiaid fel naill ai 'pobl sy'n gamblo' neu 'gleientiaid eraill'. Cyflwynir data am nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaethau ar gyfer y ddau gategori o gleientiaid. Ni chaiff manylion am weithgareddau gamblo a hanes unigolion o ran eu harferion gamblo ond eu cyflwyno ar gyfer cleientiaid y nodwyd eu bod yn bobl sy'n gamblo.

O fewn yr adroddiad hwn, cyflwynir cyfartaleddau fel cymedrau neu ganolrifau, neu weithiau'r ddau. Gan fod gwerthoedd unigol eithaf yn effeithio'r cymedr ond nid y canolrif, yn aml, ffeirir y canolrif.

I osgoi cymharu ar draws mesurau a chanddynt niferoedd isel o ymatebion, nid yw'r tablau yn yr adroddiad hwn ond yn cymharu ar draws categorïau os cafwyd o leiaf 100 o ymatebion o fewn y categori (h.y. rhes neu golofn tabl). Mae'r rhestr lawn o gategoriâu ar gael ym manyleb y data yn adran 13.1 o'r atodiad.



Roedd y cyfnod triniaeth, Ebrill 1af 2021 i Fawrth 31ain 2022, yn cyd-daro â'r pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr hawl i symud a chael mynediad i leoliadau cyhoeddus wedi'i gyfyngu ar adegau. Gellir cael manylion y cyfnodau clo a'r cyfyngiadau ledled Prydain Fawr yma:

- [Lloegr](#):
- [Yr Alban](#):
- [Cymru](#):

O fewn y cyfnodau clo, cyfyngwyd ar fynediad i wasanaethau a ddiffinnir fel rhai hanfodol. Roedd lleoliadau o fewn y sector lletygarwch ac adloniant, fel tafarnau, bwytai a sinemâu, ond hefyd siopau betio, casinos a neuaddau bingo, wedi cau yn ystod y cyfnodau clo, ac yn destun cyrffwiau a chyfyngiadau o ran cadw pellter y tu allan i'r cyfnodau hynny.

## 7 Gwybodaeth am GambleAware

GambleAware<sup>6</sup> yw'r brif elusen sy'n gweithio i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Rydym yn gwneud hyn drwy arwain ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus a chomisiynu'r gwaith o drawsnewid triniaethau, dulliau addysgu a gwasanaethau ataliol ym Mhrydain Fawr.

Rydym yn cydweithio'n agos â'r GIG, clinigwyr, llywodraeth leol a'r llywodraeth genedlaethol, darparwyr triniaeth ar gyfer problemau gamblo, yn ogystal â gwasanaethau eraill fel rhai iechyd meddwl, gwasanaethau i bobl sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau sy'n gweithio i leihau niwed, ynghyd â gwasanaethau cyfiawnder cymdeithasol, i sicrhau bod y system gyfan yn cydweithio i helpu pobl sy'n dioddef o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae gan GambleAware system lywodraethu eithriadol o gryf, ac rydym yn atebol i'r Comisiwn Elusennau. Mae ein Bwrdd annibynnol o ymddiriedolwyr yn arweinwyr o fewn y GIG a'r sector iechyd cyhoeddus, ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r DCMS, DHSC, OHID a'r Comisiwn Gamblu, ac mae'r rheiny sydd â phrofiad bywyd o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn arwain ein gwaith.

Rydym hefyd yn bartner anfasnachol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Mekanwaith effeithiol i gysoni gwaith llawer o sefydliadau ym maes lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo fel rhan o gynghrair o arbenigedd – sef y modd gorau o sicrhau bod cefnogaeth yn cyrraedd y rheiny sydd ei hangen.

Mae GambleAware yn ymrwymedig i ddeall sut i atal y niwed a achosir gan gamblo, ac yn gwneud hyn trwy fabwysiadu dull iechyd cyhoeddus ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Cyflawnir hyn trwy ddod â'r sector cyhoeddus a phartneriaid o blith elusennau ynghyd i ddarparu gwasanaethau arloesol ac effeithiol a gaiff eu targedu i helpu i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Dan arweiniad strategaethau a thystiolaeth, mae GambleAware yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni ein gweledigaeth ac i ddod ag arbenigedd o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghyd i greu rhwydwaith o wasanaethau ataliol a thriniaeth.

6 Ceir gwybodaeth am GambleAware a'i system lywodraethu yn <https://about.gambleaware.org/about/>

Ar ben hynny, arweinir GambleAware gan y fframwaith ar gyfer atal niwed, fel y nodir yn y Strategaeth Genedlaethol i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo. Fel rhan o hyn, roedd GambleAware, yn ei strategaeth sefydliadol ar gyfer 2021-2026 yn ymrwmo i'r nodau a ganlyn, sef "gwella cydlyniaeth, hygyrchedd, amrywiaeth, ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol". Yn unol â'r ymrwymiad hwn, datblygodd GambleAware strategaeth gomisiynu hirdymor ar gyfer y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (GTGC) yn Nhachwedd 2021, i sicrhau ei fod yn mynd ati'n effeithiol i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ledled Prydain Fawr. Cyhoeddwyd Bwriadau Comisiynu GambleAwarae ym mis Medi 2022. O 1 Ebrill 2023, bydd y llinell gymorth wedi'i hadnewyddu, darperir gwasanaethau rhanbarthol mwy integredig, ynghyd â mwy o gymorth ar gyfer cael triniaeth breswyl. Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i'r GTGC ymateb i anghenion cynyddol pobl sydd mewn perygl o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn fwy effeithiol, trwy alluogi a chefnogi darparwyr gwasanaeth i weithio'n agos ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid lleol i gyflenwi cymorth wedi'i dargedu.

## 8 Asesiad o gyflawnrwydd data FfAD/DRF 2021/22

Dengys Tabl 1 isod lefel gwblhau'r manylion a gymerir ar adeg asesu cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22. Mae eu cwblhau yn awgrymu y gofynnwyd y cwestiwn ac y cofnodwyd manylion ar y system, gan gynnwys lle cafwyd yr ateb 'heb ei nodi' neu 'ddim yn hysbys'. Nid yw manylion gweithgareddau gamblo a hanes cleientiaid o ran arferion gamblo yn cael eu casglu fel mater o drefn ar gyfer cleientiaid nad ydynt eu hunain yn gamblo, felly mae lefelau cyflawnrwydd gwybodaeth ynglŷn â gamblo yn ymwneud yn unig a chleientiaid y nodwyd eu bod yn bobl sy'n gamblo. Mae gan y mwyafrif o eitemau data gyfraddau cwblhau uchel, sy'n helpu i gryfhau cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

**Tabl 1 Lefel gwblhau meysydd data penodol**

Eitem ddata	Lefel gwblhau
Rheswm dros yr atgyfeiriad	100%
Ffynhonnell yr atgyfeiriad	99.9%
Rhywedd	99.4%
Ethnigrwydd	98.1%
Statws cyflogaeth	97.6%
Statws perthynas	98.0%
Crefydd	43.0%
Cyfeiriadedd rhywiol	52.3%
Yn gofalu am blant	85.3%
Yr Awdurdod Lleol y preswylir ynddo	96.6%
Prif weithgaredd gamblo*	95.8%
Arian a gaiff ei wario ar gamblo (y mis)*	88.1%
Colli swydd*	99.6%
Perthynas yn chwalu*	99.3%
Ennill swm mawr o arian yn gynnar*	99.3%
Dyled o ganlyniad i gamblo*	96.7%
Hanes gamblo'r cleient yn nhermau amser*	89.1%
Oedran dechrau (o ran gamblo problemus)*	92.5%
Nifer y diwrnodau yn gamblo bob mis*	86.6%
Defnydd o ddulliau hunan-eithrio*	72.8%

\* Pobl sy'n gamblo'n unig

## 9 Nodweddion Cleientiaid

Adroddwyd y cafodd cyfanswm o 7,072 o unigolion eu trin gan ddarparwyr GTGC yn 2021/22. Mae hyn yn cynnwys 6,467 (91%) o breswylwyr yn Lloegr, 222 (3%) yn yr Alban a 316 yng Nghymru (4%), ac nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer 1% ohonynt.

Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid hyn yn bobl sy'n gamblo (5,996; 85%), gyda 971 (14%) yn 'rai eraill a effeithir'. Roedd nifer fechan o atgyfeiriadau (105, 2%) yn ymwneud â chleientiaid nad oeddent yn bobl sy'n gamblo ond eu bod yn ystyried eu bod mewn perygl o ddatblygu problem gamblo (gweler adran 6).

Roedd chwarter (24%) y cleientiaid a welwyd yn 2021/22 ar gyfer triniaeth fynych (cleientiaid a welwyd yn flaenorol gan y gwasanaeth sy'n adrodd neu wasanaeth arall).

### 9.1 Oedran a rhywedd Cleientiaid

Roedd gan gleientiaid oedran canolrifol o 35 mlwydd oed ar adeg eu hatgyfeirio, gyda thri chwarter (75%) ohonynt yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf o gleientiaid yn y bandiau oedran 25–29 (18%) a 30–34 (21%) (Tabl 2). Roedd gan gleientiaid nad oeddynt yn gamblo oedran canolrifol o 40 mlwydd oed, ac yn fwy tebygol na phobl sy'n gamblo o fod yn y bandiau oedran dros 50 oed (Tabl 3).


Roedd mwyafrif helaeth y cleientiaid (70%) yn wrywod. Mae hyn yn cymharu â 49% yn y boblogaeth yn gyffredinol ym Mhrydain Fawr<sup>7</sup>. Roedd tri deg un (0.4%) o gleientiaid yn nodi rhywedd heblaw am wrywaidd neu fenywaidd (trawsryweddol benyw i wryw, gwryw i fenyw, neu gategori rhywedd amhenodol). Roedd y dosbarthiad oedran yn amrywio yn ôl rhywedd (Tabl 2 a Ffigur 1), gyda dosbarthiad benywod yn ôl oedran yn fwy cyfartal, gan gynnwys cyfran uwch yn y grwpiau oedran hŷn (40+) o gymharu â gwrywod. Roedd hyn yn arwain at oedran canolrifol uwch o 39 oed ar gyfer benywod, o gymharu â 34 oed ar gyfer gwrywod. Cafwyd cryn wahaniaeth o ran rhyw yn ôl math y cleient (Tabl 4) gyda 79% o bobl sy'n gamblo yn wrywaidd, o gymharu â dim ond 19% o gleientiaid eraill.

Tabl 2 Oedran a rhywedd cleientiaid

Bandiau Oedran		Gwryw			Benyw			Cyfanswm y Cleientiaid	
		N	Col %	Rhes %	N	Col %	Rhes %	N	Col %
Bandiau Oedran	< 20	63	1.3%	87.5%	9	0.4%	12.5%	73	1.0%
	20-24	469	9.6%	83.8%	91	4.3%	16.3%	569	8.1%
	25-29	953	19.5%	78.0%	269	12.7%	22.0%	1241	17.6%
	30-34	1115	22.9%	75.0%	371	17.6%	25.0%	1503	21.3%
	35-39	810	16.6%	70.2%	344	16.3%	29.8%	1164	16.5%
	40-44	530	10.9%	68.8%	240	11.4%	31.2%	773	10.9%
	45-49	343	7.0%	64.5%	189	8.9%	35.5%	538	7.6%
	50-54	262	5.4%	54.1%	222	10.5%	45.9%	488	6.9%
	55-59	175	3.6%	49.4%	179	8.5%	50.6%	358	5.1%
	60+	159	3.3%	44.5%	198	9.4%	55.5%	361	5.1%
	<b>Cyfanswm*</b>	4879	100.0%	69.8%	2112	100.0%	30.2%	7068	100.0%
	<b>Ar goll</b>	2			1			4	
	<b>Cyfanswm y cleientiaid</b>	4881			2113			7072	

\*Categories of gender with less than 100 clients were excluded from this table. See section 13.1.1.1 for full categories.

Ffigur 1 Oedran a rhywedd cleientiaid ar adeg eu hatgyfeiriol



Tabl 3 Bandiau oedran yn ôl math y cleient

Bandiau oedran	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill	
	%	N	%	N
Under 20	69	1.2%	4	0.4%
20-24	524	8.7%	45	4.2%
25-29	1121	18.7%	120	11.2%
30-34	1336	22.3%	167	15.5%
35-39	1014	16.9%	150	14.0%
40-44	660	11.0%	113	10.5%
45-49	447	7.5%	91	8.5%
50-54	365	6.1%	123	11.4%
55-59	254	4.2%	104	9.7%
60+	203	3.4%	158	14.7%
Cyfanswm	5993	100.0%	1075	100.0%
Ar goll	3		1	
Cyfanswm y cleientiaid	5996		1076	

Tabl 4 Rhywedd yn ôl math y cleient\*

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill	
	%	N	%	N
Gwryw	4682	78.9%	199	18.8%
Benyw	1251	21.1%	862	81.2%

\*Ni chynhwyswyd categorïau rhywedd â llai na 100 gleientiaid yn y tabl hwn. Gweler adran 13.1.1.1 am y categorïau llawn.

## 9.2 Ethnigrwydd Cleientiaid

Roedd bron i naw o bob deg o'r cleientiaid (88%) o gefndir ethnig Gwyn (Tabl 5), gan gynnwys 76% a oedd yn Wyn Prydeinig a 5% o gategori Gwyn Arall. Y cefndiroedd ethnig a adroddwyd fwyaf wedyn oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (6%), Du neu Ddu Prydeinig (3%), a Chymysg (3%). Mae hyn yn cymharu â chyfrannau<sup>8</sup> cenedlaethol (DU) o 87% yn Wyn neu Wyn Prydeinig, 7% yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, a 3% yn Ddu neu Ddu Prydeinig a Chymysg (3%).

Er nad oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn bodoli rhwng y rhywiau o fewn categorïau a ddiffiniwyd gan ethnigrwydd (Tabl 6), roedd cyfran uwch o gleientiaid gwryw yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig na rhai benyw (7% o gymharu â 4%) neu'n Ddu neu Ddu Prydeinig (3% o gymharu â 2%).

Tabl 5 Ethnigrwydd cleientiaid

		Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
		N	%	N	%	N	%
<b>Gwyn neu Wyn Prydeinig</b>	Prydeinig	4509	80.7%	729	74.5%	5238	79.8%
	Gwyddelig	54	1.0%	13	1.3%	67	1.0%
	Ewropeaidd	126	2.3%	27	2.8%	153	2.3%
	Arall	224	4.0%	92	9.4%	316	4.8%
<b>Du neu Ddu Prydeinig</b>	Affricanaidd	72	1.3%	13	1.3%	85	1.3%
	Caribiaidd	60	1.1%	3	0.3%	63	1.0%
	Arall	32	0.6%	4	0.4%	36	0.5%
<b>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig;</b>	Bangladeshaid	33	0.6%	5	0.5%	38	0.6%
	Indiaidd	112	2.0%	25	2.6%	137	2.1%
	Pacistanaid	61	1.1%	5	0.5%	66	1.0%
	Tsieiniaidd	11	0.2%	4	0.4%	15	0.2%
	Arall	97	1.7%	24	2.5%	121	1.8%
<b>Cymysg</b>	Gwyn ac Asiaidd	33	0.6%	7	0.7%	40	0.6%
	Gwyn a Du Affricanaidd	19	0.3%	2	0.2%	21	0.3%
	Gwyn a Caribiaidd Du	38	0.7%	8	0.8%	46	0.7%
	Arall	92	1.6%	16	1.6%	108	1.6%
<b>Grŵp ethnig arall</b>		14	0.3%	1	0.1%	15	0.2%
	<b>Cyfanswm</b>	5587	100.0%	978	100.0%	6565	100.0%
	<b>Ar goll/Heb ei nodi</b>	409		98		507	
	<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	5996		1076		7072	

8 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 y DU. Dylid nodi bod cyfrannau'r DU yn cynnwys Gogledd Iwerddon, nad yw o fewn cwmpas y GTGC.

Tabl 6 Ethnigrwydd yn ôl rhywedd

	Gwryw		Benyw	
	N	%	N	%
Gwyn neu Wyn Prydeinig	3978	86.8%	1767	90.8%
Du neu Ddu Prydeinig	150	3.3%	34	1.7%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	297	6.5%	77	4.0%
Cymysg neu fwy nag un grŵp	146	3.2%	66	3.4%
Grŵp Ethnig Arall	12	0.3%	3	0.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4583</b>	<b>100.0%</b>	<b>1947</b>	<b>100.0%</b>
Ar goll/ddim yn hysbys/heb ei nodi	298		166	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	<b>4881</b>		<b>2113</b>	

### 9.3 Statws perthynas Cleientiaid

Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid naill ai mewn perthynas (36%) neu'n briod (27%). Roedd 30% arall yn sengl, 4% wedi gwahanu a 2% wedi ysgaru (Tabl 7). O gymharu â chleientiaid gwryw, roedd cleientiaid benyw yn llai tebygol o fod yn sengl (25% o gymharu â 32%) ac yn fwy tebygol o fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil (32% o gymharu â 24%) neu'n weddw (2% o gymharu â <1%) (Tabl 8).

Tabl 7 Statws perthynas cleientiaid

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Mewn perthynas</b>	1954	37.5%	289	30.5%	2243	36.4%
<b>Sengl</b>	1719	33.0%	110	11.6%	1829	29.7%
<b>Priod/Partneriaeth Sifil</b>	1193	22.9%	448	47.3%	1641	26.7%
<b>Wedi gwahanu</b>	194	3.7%	53	5.6%	247	4.0%
<b>Wedi ysgaru</b>	112	2.2%	35	3.7%	147	2.4%
<b>Gweddw</b>	36	0.7%	12	1.3%	48	0.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>5208</b>	<b>100.0%</b>	<b>947</b>	<b>100.0%</b>	<b>6155</b>	<b>100.0%</b>
Ar goll/ddim yn hysbys/heb ei nodi	788		129		917	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	<b>5996</b>		<b>1076</b>		<b>7072</b>	

Tabl 8 Statws perthynas cleientiaid yn ôl rhywedd

	Gwryw		Benyw	
	N	%	N	%
Mewn perthynas	1632	38.3%	585	32.0%
Sengl	1357	31.9%	455	24.9%
Priod/Partneriaeth Sifil	1016	23.8%	607	33.2%
Wedi gwahanu	158	3.7%	88	4.8%
Wedi ysgaru	82	1.9%	63	3.4%
Gweddw	15	0.4%	32	1.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4260</b>	<b>100.0%</b>	<b>1830</b>	<b>100.0%</b>
Ar goll/ddim yn hysbys/heb ei nodi	621		283	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	<b>4881</b>		<b>2113</b>	

## 9.4 Statws cyflogaeth Cleientiaid

Roedd mwyafrif y cleientiaid yn gyflogedig (73%) (Tabl 9). Roedd pobl sy'n byw ag anableddau/salwch hirdymor ac nad ydynt yn gweithio yn cyfrif am 11%, a ddilynwyd gan y di-waith (9%), rhai sy'n gofalu am y teulu/cadw tŷ ac nad ydynt yn gweithio (3%), rhai sydd wedi ymddeol (2%) a myfyrwyr (2%). Roedd cleientiaid benyw yn llai tebygol o fod yn gyflogedig (62% o gymharu â 76% o wrywod) (Tabl 10) ac yn fwy tebygol o fod yn gofalu am y teulu/cadw tŷ a ddim yn gweithio (7% o gymharu â 1%), gyda salwch/anabledd hirdymor a ddim yn gweithio (17% o gymharu â 8%) neu wedi ymddeol (5% o gymharu â 1%).



Tabl 9 Statws cyflogaeth cleientiaid

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Cyflogedig</b>	4039	73.5%	665	70.3%	4704	73.0%
<b>Di-waith</b>	511	9.3%	37	3.9%	548	8.5%
<b>Myfyriwr</b>	96	1.7%	18	1.9%	114	1.8%
<b>Salwch/anabledd hirdymor a ddim yn gweithio</b>	647	11.8%	37	3.9%	684	10.6%
<b>Gofalu am y teulu/cadw tŷ a ddim yn gweithio</b>	88	1.6%	71	7.5%	159	2.5%
<b>Ddim yn chwilio am waith</b>	15	0.3%	5	0.5%	20	0.3%
<b>Gwirfoddolwr</b>	11	0.2%	0	0.0%	11	0.2%
<b>Wedi ymddeol</b>	70	1.3%	79	8.4%	149	2.3%
<b>Yn ceisio lloches</b>	0	0.0%	3	0.3%	3	0.0%
<b>Yn y carchar</b>	17	0.3%	31	3.3%	48	0.7%
<b>Cyfanswm</b>	5494	100.0%	946	100.0%	6440	100.0%
<b>Ar goll</b>	502		130		632	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	5996		1076		7072	

Tabl 10 Statws cyflogaeth yn ôl rhywedd

	Gwryw		Benyw	
	N	%	N	%
<b>Cyflogedig</b>	3490	77.5%	1166	62.3%
<b>Di-waith</b>	404	9.0%	138	7.4%
<b>Myfyriwr</b>	80	1.8%	32	1.7%
<b>Salwch/anabledd hirdymor a ddim yn gweithio</b>	370	8.2%	308	16.5%
<b>Gofalu am y teulu/cadw tŷ a ddim yn gweithio</b>	24	0.5%	134	7.2%
<b>Ddim yn chwilio am waith</b>	14	0.3%	6	0.3%
<b>Gwirfoddolwr</b>	0	0.0%	0	0.0%
<b>Wedi ymddeol</b>	9	0.2%	2	0.1%
<b>Yn ceisio lloches</b>	61	1.4%	85	4.5%
<b>Yn y carchar</b>	3	0.1%	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	48	1.1%	0	0.0%
<b>Ar goll</b>	4503	100.0%	1871	100.0%
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	378		242	
<b>Cyflogedig</b>	4881		2113	

## 9.5 Cyfeiriadedd rhywiol cleientiaid

Cyflwynwyd y categori hwn i'r casgliad o ddata yn Ebrill 2021. Nodwyd cyfeiriadedd rhywiol gan 53% o gleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22. Yn lle nodwyd hynny, roedd 96% yn nodi eu bod yn strêr/heterorywiol, gyda 3% yn lesbiaidd, hoyw a/neu gyfunrywiol.

Tabl 11 Cyfeiriadedd rhywiol cleientiaid

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Lesbiaidd, hoyw a/neu gyfunrywiol	98	3.2%	15	2.5%	113	3.1%
Strêr/heterorywiol	2977	95.8%	573	96.8%	3550	95.9%
Deurywiol	13	0.4%	1	0.2%	14	0.4%
Rhywbeth arall*	21	0.7%	3	0.5%	24	0.6%
<b>Cyfanswm</b>	3109	100.0%	592	100.0%	3701	100.0%
Ar goll/ddim yn hysbys/heb ei nodi	2887		484		3371	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	5996		1076		7072	

\*Mae'r categorïau'n cynrychioli'r rheiny ym manyleb y data yn uniongyrchol.

## 9.6 Cyfrifoldeb am blant

Cyflwynwyd y categori hwn i'r casgliad o ddata yn Ebrill 2021. Nodwyd cyfrifoldeb am blant ar gyfer 85% o gleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22. Yn lle nodwyd hynny, roedd 41% o gleientiaid yn gyfrifol am ofalu am blant.

Tabl 12 Cyfrifoldeb am blant

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Yn gyfrifol am blant	2087	40.4%	360	41.5%	2447	40.6%
Ddim yn gyfrifol am blant	3075	59.6%	508	58.5%	3583	59.4%
<b>Cyfanswm</b>	5162	100.0%	868	100.0%	6030	100.0%
Ar goll/ddim yn hysbys/heb ei nodi	834		208		1042	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	5996		1076		7072	

## 9.7 Crefydd cleientiaid

Cyflwynwyd y categori hwn i'r casgliad o ddata yn Ebrill 2021, a nodwyd categori crefydd ar gyfer 43% o gleientiaid a dderbyniodd driniaeth 2021/22. Nodwyd 'dim crefydd' gan y mwyafrif ohonynt (59%), gyda chyfran uwch o gleientiaid sy'n gamblo yn nodi hynny (62%) o gymharu â chleientiaid eraill (45%). Roedd cyfran uwch o gleientiaid eraill yn hytrach na chleientiaid sy'n gamblo yn Gristnogion (27% o gymharu ag 20%) neu'n Fwslimiaid (13% o gymharu â 4%). Roedd crefyddau eraill yn cyfrif am 11%, ond ni ofynnwyd am fanylion.

Tabl 13 Crefydd cleientiaid

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Dim crefydd	1593	61.8%	208	45.1%	1801	59.3%
Cristion	525	20.4%	132	28.6%	657	21.6%
Bwdhaidd	10	0.4%	2	0.4%	12	0.4%
Hindŵaidd	25	1.0%	5	1.1%	30	1.0%
Iddewig	18	0.7%	0	0.0%	18	0.6%
Mwslimaidd	108	4.2%	58	12.6%	166	5.5%
Sikh	15	0.6%	1	0.2%	16	0.5%
Unrhyw grefydd arall	284	11.0%	55	11.9%	339	11.2%
<b>Cyfanswm</b>	2578	100.0%	461	100.0%	3039	100.0%
<b>Ar goll/ddim yn hysbys/heb ei nodi</b>	3418		615		4033	
<b>Cyfanswm y Cleientiaid</b>	5996		1076		7072	

## 9.8 Proffil gamblo

Mae adran 8.8 yn adrodd gwybodaeth a gasglwyd gan gleientiaid a ddiffiniwyd fel pobl sy'n gamblo gan y gwasanaeth.

### 9.8.1 Lleoliadau gamblo

Caiff hyd at dri gweithgaredd gamblo eu cofnodi ar gyfer pob cleient sy'n gamblo, ac fe'u rhestrir yn nhrefn eu pwysigrwydd (yn ôl hynny a gytunwyd rhwng y cleient a'r gweithiwr allweddol). Caiff gweithgareddau gamblo eu grwpio o fewn y lleoliadau y maent yn digwydd. Roedd 48% o bobl sy'n gamblo yn adrodd eu bod yn gwneud un gweithgaredd gamblo, roedd 29% yn adrodd dau, ac 19% yn adrodd tri.

Y lleoliad mwyaf cyffredin a adroddwyd ar gyfer gamblo (Tabl 14) oedd ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 75% o bobl sy'n gamblo a ddarparodd y wybodaeth hon. Siopau Betio oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o leoliad, a ddefnyddiwyd gan 30% o bobl sy'n gamblo. Ni ddefnyddiwyd unrhyw leoliadau eraill gan fwy na 10% o bobl sy'n gamblo, er y defnyddiwyd casinos gan 7% a rhai amrywiol (fel y Loteri, cardiau crafu a'r Pwls Pêl-droed) gan 9%.

Mae Tabl 14 hefyd yn dangos lleoliad y prif weithgaredd gamblo, lle gwelir mai gwasanaethau ar-lein yw'r mwyaf cyffredin, a ddilynir gan siopau betio. Mae'r ddau leoliad hyn yn cyfrif am y mwyafrif o'r prif weithgareddau gamblo, ar 87%.

Tabl 14 Lleoliad gweithgareddau gamblo a adroddwyd yn 2021/22

	Unrhyw gamblo yn y lleoliad hwn	%	Prif leoliad gamblo	%
<b>Ar-lein</b>	%	74.7%	3913	%
<b>Siopau Betio</b>	1741	30.3%	1105	19.2%
<b>Amrywiol</b>	495	8.6%	212	3.7%
<b>Casino</b>	422	7.3%	210	3.7%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	220	3.8%	119	2.1%
<b>Tafarn</b>	145	2.5%	59	1.0%
<b>Safle Bingo</b>	101	1.8%	41	0.7%
<b>Arall</b>	83	1.4%	14	0.2%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	69	1.2%	25	0.4%
<b>Digwyddiadau Byw</b>	23	0.4%	38	0.7%
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	19	0.3%	9	0.2%
<b>Cyfanswm</b>	5745		5745	
<b>Ar goll</b>	251		251	
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	5996		5996	

### 9.8.2 Gweithgareddau gamblo

Dengys Tabl 15 y niferoedd sy'n adrodd pob gweithgaredd gamblo fel cyfran o'r bobl sy'n gamblo'n gyffredinol, ac o fewn lleoliadau gamblo penodol.

Tabl 15 Gweithgareddau gambo, wedi'u grwpio yn ôl lleoliad

Lleoliad	Gweithgaredd	N	% ymysg pobl sy'n gambo	% o fewn y lleoliad
<b>Siopau Betio</b>				
	Digwyddiad chwaraeon neu arall	539	9.6%	31.0%
	Peiriant Gemau Ods Penodol	532	9.5%	30.6%
	Ceffylau	412	7.4%	23.7%
	Peiriant Gemau (arall)	402	7.2%	23.1%
	Cŵn	165	2.9%	9.5%
	Arall	147	2.6%	8.4%
<b>Safle Bingo</b>				
	Peiriant Gemau Ods Penodol	57	1.0%	56.4%
	Lotri byw	28	0.5%	27.7%
	Terfynell	6	0.1%	5.9%
	Peiriant Sgiliau	4	0.1%	4.0%
	Arall	15	0.3%	14.9%
<b>Casino</b>				
	Rwlét	201	3.6%	40.6%
	Peiriant Gemau Ods Penodol	111	2.0%	22.4%
	Peiriant Gemau (arall)	65	1.2%	13.1%
	Pocer	50	0.9%	10.1%
	Gemau cardiau ar wahân i bocer	46	0.8%	9.3%
	Arall	78	1.4%	15.8%
<b>Digwyddiadau byw</b>				
	Digwyddiad chwaraeon neu arall	50	0.9%	60.2%
	Ceffylau	25	0.4%	30.1%
	Cŵn	13	0.2%	15.7%
	Arall	6	0.1%	7.2%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (18+ arcêd)</b>				
	Peiriant Gemau (arall)	131	2.3%	59.5%
	Peiriant Gemau (FOBT)	76	1.4%	34.5%
	Peiriannau gwobrwyo sgiliau	5	0.1%	2.3%
	Arall	16	0.3%	7.3%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>				
	Peiriant Gemau (arall)	44	0.8%	63.8%
	Peiriant Gemau Ods Penodol	23	0.4%	33.3%
	Arall	3	0.1%	4.3%
<b>Tafarn</b>				
	Peiriant Gemau (arall)	132	2.4%	91.0%
	Chwaraeon	7	0.1%	4.8%
	Pocer	3	0.1%	2.1%
	Arall	4	0.1%	2.8%
<b>Ar-lein</b>				
	Casino (slotiau)	2187	38.1%	51.0%
	Digwyddiadau chwaraeon	1156	20.1%	26.9%
	Casino (gemau bwrdd)	670	11.7%	15.6%
	Ceffylau	470	8.2%	11.0%
	Bingo	223	3.9%	5.2%
	Cyfnewidfa fetio	202	3.5%	4.7%
	Betio ar eChwaraeon	183	3.2%	4.3%
	Pocer	105	1.8%	2.4%
	Marchnadoedd Ariannol	89	1.5%	2.1%
	Cŵn	85	1.5%	2.0%
	Gwasgar-fetio	64	1.1%	1.5%
	Cardiau crafu	46	0.8%	1.1%
	Betio chwaraeon rhithwir	32	0.6%	0.7%
	O fewn gemau fideo	29	0.5%	0.7%
	Arall	245	4.3%	5.7%
<b>Amrywiol</b>				
	Cardiau crafu	254	4.4%	60.2%
	Y Loteri (Genedlaethol)	95	1.7%	22.5%
	Pŵls Pêl-droed	75	1.3%	17.8%
	Loteri (arall)	33	0.6%	7.8%
	Peiriant gemau mewn gorsaf wasanaethau	16	0.3%	3.8%
	Gemau preifat/wedi'u trefnu	8	0.1%	1.9%
<b>Clwb aelodau preifat</b>				
	Peiriant gemau	9	0.2%	47.4%
	Pocer	5	0.1%	26.3%
	Gemau cardiau ar wahân i bocer	1	0.0%	5.3%
	Arall	4	0.1%	21.1%
<b>Lleoliad arall</b>				
		23	0.4%	
	Cyfanswm	5745		
	Ar goll	251		
	Cyfanswm y bobl sy'n gambo	5996		


\* Gall y %au ddod i gyfanswm o > 100% oherwydd y gellir adrodd mwy nag un gweithgaredd

O fewn gwasanaethau ar-lein, slotiau casino oedd y gweithgaredd unigol a adroddwyd fwyaf, a adroddwyd gan 38% o'r bobl sy'n gamblo yn gyffredinol, a ddilynwyd gan ddiwyddiadau chwaraeon (20%) a gemau bwrdd casino (12%). O fewn siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo, a ddefnyddiwyd gan 17% o bobl sy'n gamblo, a ddilynwyd gan gemau chwaraeon (10%) a cheffylau (7%).

### 9.8.3 Hanes gamblo

Yr oedran canolrifol yr oedd pobl sy'n gamblo yn adrodd bod eu gamblo problemus yn dechrau oedd 24 mlwydd oed, er bod hyn yn amrywio'n fawr. Roedd chwarter ohonynt yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau erbyn iddynt fod yn 18 oed, a thri chwarter ohonynt erbyn iddynt fod yn 32 oed. Ar adeg eu cyflwyno i'r gwasanaethau gamblo, bu pobl sy'n gamblo yn adrodd eu bod wedi bod yn gamblo am ganolrif o 10 mlynedd. Unwaith eto, roedd hyn yn amrywio'n fawr. Roedd chwarter ohonynt yn adrodd problem gamblo ers tua 5 mlynedd, a thri chwarter ohonynt am hyd at 19 mlynedd. Mae Ffigur 2 a Ffigur 3 yn dangos y dosbarthiad o ran oedran dechrau a'r cyfnod y bu pobl yn gamblo. Mae cynnydd sydyn yn y dosbarthiadau hyn yn debygol o gynrychioli atebion sydd wedi'u talgrynnu (i ystodau oedran pum mlynedd a nifer y blynyddoedd y bu pobl yn gamblo).

**Ffigur 2 Dosbarthiad oedran ar adeg dechrau gamblo**



**Ffigur 3 Dosbarthiad cyfnod yr amser yn gamblo cyn cyflwyno i wasanaeth gamblo**



Mae'r FfAD yn cynnwys sawl mesur o ganlyniadau niweidiol gamblo, nad yw rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno yma yn ffurf tabl ond yn cael eu crynhoi fel a ganlyn. Roedd y mwyafrif o'r bobl sy'n gamblo (62%) wedi cael y profiad o ennill swm mawr o arian yn gynnar yn eu gyrfa gamblo. Adroddwyd gan 11% ohonynt eu bod wedi colli swydd (o ganlyniad i gamblo), ac roedd 26% wedi profi perthynas yn chwalu.

Nid oedd gan bron i bedwar o bob deg o'r bobl sy'n gamblo (37%) unrhyw ddyled o ganlyniad i gamblo ar adeg yr asesiad (Tabl 16). Roedd gan 23% ddyledion o lai na £5,000 ac roedd gan 31% ddyledion o £5,000 neu ragor. Roedd 2% arall yn fethdalwyr neu wedi cytuno i Drefniant Gwirfoddol Unigol (IVA) ac nid oedd 5% yn gwybod faint o ddyled oedd ganddynt.

**Tabl 16 Dyled o ganlyniad i gamblo**

	N	%
<b>Dim dyled</b>	2094	37.3%
<b>O dan £5000</b>	1308	23.3%
<b>£5000-£9,999</b>	575	10.2%
<b>£10,000-£14,999</b>	354	6.3%
<b>£15,000-£19,999</b>	247	4.4%
<b>£20,000-£29,999</b>	206	3.7%
<b>£30,000 - £49,999</b>	152	2.7%
<b>£50,000 - £99,999</b>	123	2.2%
<b>£20,000-£99,999 (heb nodi faint yn union)</b>	124	2.2%
<b>£100,000 neu ragor</b>	53	0.9%
<b>Yn fethdalwyr</b>	22	0.4%
<b>O dan IVA</b>	78	1.4%
<b>Ddim yn gwybod (rhywfaint)</b>	276	4.9%
<b>Cyfanswm</b>	5612	
<b>Ar goll/heb ei nodi</b>	384	
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	5996	

O ran y rheiny a oedd yn adrodd eu bod wedi colli swydd neu fod perthynas wedi chwalu o ganlyniad i'w gamblo (Tabl 17) roedd cyfran fwy ohonynt yn adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio (46% o gymharu â 27% sydd heb golli swydd) a chasinos (12% o gymharu â 8%), ond roedd cyfran fwy o'r rheiny nad oeddent wedi colli swydd trwy gamblo yn adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau ar-lein (77% o gymharu â 65% o'r rheiny sydd heb golli swydd). Yn yr un modd (Tabl 18), roedd cyfran fwy o'r rheiny sy'n adrodd eu bod wedi profi perthynas yn chwalu trwy gamblo (40% o gymharu â 26% o'r rheiny nad ydynt wedi profi perthynas yn chwalu) yn adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio, ond roedd cyfran uwch o'r rheiny sy'n adrodd nad ydynt wedi profi perthynas yn chwalu trwy gamblo yn adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau ar-lein (78% o gymharu â 70% o'r rheiny a oedd yn adrodd nad oeddynt wedi profi perthynas yn chwalu).

Tabl 17 Lleoliad gamblo yng nghyswllt colli swydd

	Wedi colli swydd		Heb goli swydd	
	N	%	N	%
Siopau Betio	256	45.6%	1309	27.3%
Safle Bingo	8	1.4%	69	1.4%
Casino	69	12.3%	361	7.5%
Digwyddiadau byw	11	2.0%	44	0.9%
Canolfan Adloniant i Oedolion (Arcêd 18+)	28	5.0%	150	3.1%
Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)	11	2.0%	45	0.9%
Tafarn	11	2.0%	113	2.4%
Ar-lein	367	65.3%	3702	77.1%
Amrywiol	32	5.7%	346	7.2%
Clwb Aelodau Preifat	2	0.4%	12	0.3%
Arall	4	0.7%	18	0.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>562</b>	<b>100.0%</b>	<b>4800</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 18 Lleoliad gamblo yng nghyswllt perthynas yn chwalu

	Perthynas wedi chwalu		Perthynas heb chwalu	
	N	%	N	%
Siopau Betio	543	39.8%	1043	26.0%
Safle Bingo	23	1.7%	59	1.5%
Casino	140	10.3%	300	7.5%
Digwyddiadau byw	35	2.6%	35	0.9%
Canolfan Adloniant i Oedolion (Arcêd 18+)	64	4.7%	129	3.2%
Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)	19	1.4%	40	1.0%
Tafarn	35	2.6%	90	2.2%
Ar-lein	954	70.0%	3113	77.7%
Amrywiol	83	6.1%	299	7.5%
Clwb Aelodau Preifat	6	0.4%	8	0.2%
Arall	0	0.0%	18	0.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1363</b>	<b>100.0%</b>	<b>4009</b>	<b>100.0%</b>

#### 9.8.4 Arian sy'n cael ei wario ar gamblo


Roedd pobl sy'n gamblo yn adrodd eu bod wedi bod yn gamblo ar ganolrif o 15 diwrnod yn ystod y 30 diwrnod blaenorol, ac wedi bod yn gwario canolrif o £120 yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad. Mae'r gwerth cymedrig o £511 y diwrnod yn dangos bod rhai pobl sy'n gamblo yn gwario ar lefelau sylweddol uwch. Roedd bron i hanner ohonynt yn gwario £100 yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad (Tabl 19), roedd 15% wedi gwario rhwng £100 a £200, roedd 21% wedi gwario rhwng £200 a £500 a 14% wedi gwario dros £500



Tabl 19 Gwariant cyfartalog ar ddiwrnodau gamblo

	N	%
<b>Hyd at £100</b>	2349	49.8%
<b>£101 i £200</b>	725	15.4%
<b>£201 i £300</b>	377	8.0%
<b>£301 i £400</b>	149	3.2%
<b>£401 i £500</b>	453	9.6%
<b>£501 i £1000</b>	396	8.4%
<b>£1001 i £2000</b>	143	3.0%
<b>Dros £2000</b>	126	2.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4718</b>	
<b>Ar goll</b>	<b>1278</b>	
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	<b>5996</b>	

Ffigur 4 Dosbarthiad y gwariant dyddiol cyfartalog ar gamblo (wedi'i gapio ar £10k)



Yn y mis blaenorol, roedd pobl sy'n gamblo yn adrodd eu bod yn gwario canolrif o £1000 a chymedr o £2,288 ar gamblo. Roedd 63% o'r bobl sy'n gamblo wedi gwario hyd at £1,000 yn y mis blaenorol (Tabl 20). Roedd 17% yn adrodd eu bod wedi gwario dros £2000 yn y mis blaenorol.

Tabl 20 Gwariant a adroddwyd ar gamblo yn ystod y mis cyn cael triniaeth


	N	%
<b>Hyd at £100</b>	388	7.3%
<b>Hyd at £200</b>	254	4.8%
<b>Hyd at £300</b>	300	5.7%
<b>Hyd at £400</b>	281	5.3%
<b>Hyd at £500</b>	564	10.7%
<b>Hyd at £1000</b>	1567	29.7%
<b>Hyd at £2000</b>	1060	20.1%
<b>Dros £2000</b>	870	16.5%
<b>Cyfanswm</b>	5284	
<b>Ar goll</b>	102	
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	5996	

Roedd gwerthoedd cymedrig ac ystod y gwariant yn amrywio'n sylweddol rhwng y rheiny a oedd yn adrodd gwahanol lleoliadau gamblo (Tabl 21), er na ellir priodoli'r gwariant hwnnw i gamblo yn y lleoliadau hynny'n benodol. Roedd gwerth cymedrig y gwariant ar ddiwrnodau gamblo ar ei uchaf ymysg y rheiny sy'n defnyddio digwyddiadau byw ac wedyn casinos. Gall allanolion (gwerthoedd unigol eithaf) effeithio'r gwerthoedd cymedrig hyn, ond roedd y gwerthoedd canolrifol yn gymharol uchel hefyd ar gyfer casinos (£200). Roedd y gwerth canolrifol ar ei uchaf ymysg defnyddwyr casinos a chanolfannau adloniant i oedolion (Arcedau 18+) (£200) ac wedyn siopau betio a chlybiau aelodau preifat (£150). Roedd y gwariant misol cyfartalog yn arbennig o uchel ymysg y rheiny sy'n defnyddio casinos a digwyddiadau byw, ond hefyd ymysg defnyddwyr gwasanaethau ar-lein a siopau betio, a oedd yn uwch na hynny a welwyd o ran y gwariant dyddiol cyfartalog, sy'n awgrymu y gall defnyddio'r gwasanaethau hyn yn aml gyfrannu at wariant misol uchel.

Tabl 21 Arian sy'n cael ei wario ar gyfartaledd yn ystod diwrnodau gamblo ac yn y mis blaenorol, yn ôl pobl sy'n gamblo sy'n adrodd ar gyfer pob lleoliad gamblo

	Gwariant cyfartalog ar bob diwrnod gamblo (£)		Gwariant yn y mis blaenorol (£)	
	Cymedr	Canolrif	Cymedr	Canolrif
<b>Siopau Betio</b>	489	150	1839	1000
<b>Safle Bingo</b>	220	100	1004	600
<b>Casino</b>	1092	200	3406	1000
<b>Digwyddiadau byw</b>	1853	130	1991	1000
<b>Canolfan Adloniant i Oe-dolion (arcêd 18+)</b>	321	200	1010	700
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	245	100	1428	550
<b>Tafarn</b>	208	100	811	600
<b>Ar-lein</b>	526	125	2431	1000
<b>Amrywiol</b>	195	50	1060	500
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	686	150	1977	700
<b>Arall</b>	353	80	1000	700

Ffigur 5 Dosbarthiad y gwariant ar gambo yn y mis diwethaf (wedi'i gapio ar £50k)



### 9.8.5 Math y gambo yn ôl oedran

Dengys Tabl 22 bod defnyddio siopau betio, safleoedd bingo, canolfannau adloniant i oedolion (arcedau 18+) a thafarnau yn cael eu hadrodd yn amlach gan y rheiny mewn categorïau oedran hŷn, ond mae'r berthynas rhwng defnyddio gwasanaethau ar-lein ac oedran yn glir, gyda'r gweithgaredd hwnnw'n llawer mwy poblogaidd ymysg bandiau oedran iau.

Tabl 22 Lleoliadau gambo yn ôl grŵp oedran

	Bandiau oedran								
	<25	25-29	30-34	35-39	40-44	45-49	50-54	55-59	60+
<b>Siopau Betio</b>	22.5%	28.6%	29.3%	30.4%	32.6%	34.0%	35.0%	34.4%	39.2%
<b>Safle Bingo</b>	0.9%	1.1%	1.2%	1.6%	1.4%	3.3%	3.7%	4.6%	3.1%
<b>Casino</b>	10.6%	8.0%	9.4%	8.8%	6.5%	7.8%	10.0%	8.7%	6.2%
<b>Digwyddiadau byw</b>	2.1%	1.4%	1.8%	0.9%	1.4%	1.2%	1.4%	1.2%	1.0%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	1.6%	2.5%	2.9%	3.3%	5.0%	5.2%	6.8%	8.3%	8.2%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	0.5%	0.6%	1.2%	1.2%	1.6%	1.7%	1.4%	2.9%	2.1%
<b>Tafarn</b>	2.5%	1.9%	1.8%	2.5%	3.2%	4.8%	1.7%	4.1%	4.1%
<b>Ar-lein</b>	83.1%	80.6%	79.2%	74.4%	72.9%	65.6%	64.4%	60.2%	51.5%
<b>Amrywiol</b>	6.9%	6.0%	5.9%	6.9%	7.9%	12.4%	9.1%	8.3%	10.8%
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	0.2%	0.3%	0.2%	0.3%	0.2%	0.5%	0.9%	1.2%	0.0%
<b>Arall</b>	0.5%	0.5%	0.2%	0.5%	0.5%	0.5%	0.0%	0.0%	1.0%
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gambo*</b>	502	1072	1296	967	634	421	351	241	194

Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad.

### 9.8.6 Lleoliad gamblo yn ôl rhywedd

Roedd cyfran is o ferched sy'n gamblo yn adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio (10% o gymharu â 36% o wrywod sy'n gamblo), casinos (6% o gymharu â 9%) neu ddigwyddiadau byw (0.3% o gymharu â 2%), ond roedd cyfran uwch yn adrodd eu bod yn defnyddio safleoedd bingo (6% o gymharu â 1%), canolfannau adloniant i oedolion (arcedau 18+) (6% o gymharu â 3%), canolfannau adloniant i deuluoedd (2% o gymharu â 1%), gwasanaethau ar-lein (82% o gymharu â 73%) neu weithgareddau amrywiol (12% o gymharu â 6%).

Tabl 23 Lleoliadau gamblo yn ôl rhywedd

	Gwryw		Benyw	
	N	%	N	%
<b>Siopau Betio</b>	1614	35.9%	115	9.6%
<b>Safle Bingo</b>	24	0.5%	75	6.3%
<b>Casino</b>	417	9.3%	72	6.0%
<b>Digwyddiadau byw</b>	79	1.8%	4	0.3%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	147	3.3%	71	5.9%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	47	1.0%	21	1.8%
<b>Tafarn</b>	123	2.7%	21	1.8%
<b>Ar-lein</b>	3262	72.6%	981	82.1%
<b>Amrywiol</b>	278	6.2%	140	11.7%
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	18	0.4%	1	0.1%
<b>Arall</b>	17	0.4%	6	0.5%
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo*</b>	4492		1195	

\*Ni chynhwyswyd categorïau rhyw â llai na 100 o bobl sy'n gamblo yn y tabl hwn. Gweler adran 13.1.1.1 am y categorïau sydd ar gael. Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad.

### 9.8.7 Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn amlwg rhwng lleoliadau gamblo a adroddwyd gan wahanol grwpiau ethnig (Tabl 24). O gymharu â phobl Wyn neu Wyn Prydeinig sy'n gamblo: roedd cyfran uwch o bobl sy'n gamblo a oedd yn nodi eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig yn adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio (44% o gymharu â 30%) neu gasinos (17% o gymharu â 7%); roedd cyfran uwch o'r rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig hefyd yn adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio (34%) neu gasinos (20%). Roedd y defnydd o siopau betio ar ei uchaf ymysg y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig (44%), ond y grŵp hwn oedd yr un lleiaf tebygol o ddefnyddio safleoedd bingo (1%), digwyddiadau byw (1%), canolfannau adloniant i'r teulu (0%) neu dafarnau (0%). Roedd y defnydd o gasinos ar ei uchaf ymysg y rheiny oedd yn nodi eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig (20%), ond y grŵp hwn oedd yr un lleiaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein (61%) o gymharu â grwpiau ethnig eraill.

Tabl 24 Lleoliad gambo yn ôl grŵp ethnig

	Gwyn neu wyn Prydeinig		Du neu Ddu Prydeinig		Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig		Cymysg	
	N	%	N	%	N	%	N	%
<b>Siopau Betio</b>	1405	29.7%	70	44.3%	104	34.3%	48	30.4%
<b>Safle Bingo</b>	87	1.8%	1	0.6%	4	1.3%	2	1.3%
<b>Casino</b>	343	7.3%	27	17.1%	60	19.8%	26	16.5%
<b>Digwyddiadau byw</b>	68	1.4%	1	0.6%	7	2.3%	2	1.3%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	191	4.0%	5	3.2%	10	3.3%	3	1.9%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	60	1.3%	0	0.0%	5	1.7%	2	1.3%
<b>Tafarn</b>	133	2.8%	0	0.0%	3	1.0%	2	1.3%
<b>Ar-lein</b>	3587	75.9%	108	68.4%	185	61.1%	109	69.0%
<b>Amrywiol</b>	357	7.6%	7	4.4%	16	5.3%	15	9.5%
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	17	0.4%	0	0.0%	2	0.7%	0	0.0%
<b>Arall</b>	16	0.3%	1	0.6%	1	0.3%	4	2.5%
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo*</b>	4725		158		303		158	

\*Ni chynhwyswyd categorïau o grwpiau ethnig â llai na 100 o bobl sy'n gamblo yn y tabl hwn. Gweler adran 13.1.1.1 am y categorïau sydd ar gael. Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad.

### 9.8.8 Gambo yn ôl statws perthynas

O gymharu â'r rheiny a oedd mewn perthynas, roedd cyfran uwch o bobl sy'n gamblo y diffiniwyd nad oeddent mewn perthynas (wedi ysgaru, wedi gwahanu neu'n sengl) yn adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio (35% o gymharu â 28%), safleoedd bingo (3% o gymharu â 1%), casinos (10% o gymharu â 7%), a chanolfannau adloniant i oedolion (arcedau 18+) (5% o gymharu â 3%), canolfannau adloniant i deuluoedd (2% o gymharu â 1%), tafarnau (3% o gymharu â 2%) a gweithgareddau amrywiol (9% o gymharu â 6%) (Tabl 25). Roedd cyfran uwch o'r rheiny sydd mewn perthynas neu'n briod/mewn partneriaeth sifil yn adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau ar-lein (79% o gymharu â 69%).

Tabl 25 Math y gamblo yn ôl statws perthynas

	Wedi ysgaru		Wedi gwahanu		Sengl		Mewn perthynas		Priod/ Partneriaeth Sifil	
	N	%	N	%	N	%	N	%	N	%
<b>Siopau Betio</b>	42	40.4%	59	31.1%	570	34.9%	553	28.8%	295	25.7%
<b>Safle Bingo</b>	5	4.8%	8	4.2%	38	2.3%	19	1.0%	17	1.5%
<b>Casino</b>	14	13.5%	10	5.3%	174	10.7%	134	7.0%	85	7.4%
<b>Digwyddiadau byw</b>	0	0.0%	4	2.1%	29	1.8%	21	1.1%	13	1.1%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	10	9.6%	7	3.7%	78	4.8%	55	2.9%	43	3.7%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	3	2.9%	7	3.7%	22	1.3%	16	0.8%	13	1.1%
<b>Tafarn</b>	5	4.8%	8	4.2%	52	3.2%	33	1.7%	22	1.9%
<b>Ar-lein</b>	60	57.7%	141	74.2%	1120	68.6%	1552	80.7%	886	77.1%
<b>Amrywiol</b>	8	7.7%	15	7.9%	151	9.2%	99	5.2%	92	8.0%
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	2	1.9%	3	1.6%	6	0.4%	2	0.1%	3	0.3%
<b>Arall</b>	0	0.0%	1	0.5%	6	0.4%	5	0.3%	6	0.5%
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo*</b>	104	100.0%	190	100.0%	1633	100.0%	1922	100.0%	1149	100.0%

\*Ni chynhwyswyd categorïau statws perthynas â llai na 100 o bobl sy'n gamblo yn y tabl hwn. Gweler adran 13.1.1.1 am y categorïau sydd ar gael. Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad.

### 9.8.9 Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth

Roedd y defnydd o safleoedd bingo (5%), casinos (12%), canolfannau adloniant i oedolion (arcedau 18+) (9%) a gweithgareddau amrywiol (14%) yn uwch ymysg y rheiny y diffiniwyd eu bod yn byw ag anabledd neu salwch hirdymor ac nad oeddent yn gweithio nag ymysg y rheiny a oedd yn gyflogedig (Tabl 26), a'r grŵp hwn oedd yr un lleiaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein (66%). Roedd y defnydd o wasanaethau ar-lein (77%) yn uwch ymysg y rheiny sy'n gyflogedig nag ymysg y di-waith.

Tabl 26 Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth

	Cyflogedig		Di-waith		Salwch/anabledl hirdymor a ddim yn gweithio	
	N	%	N	%	N	%
<b>Siopau Betio</b>	1136	29.1%	189	38.2%	191	31.5%
<b>Safle Bingo</b>	41	1.1%	7	1.4%	31	5.1%
<b>Casino</b>	316	8.1%	37	7.5%	71	11.7%
<b>Digwyddiadau byw</b>	53	1.4%	8	1.6%	4	0.7%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	115	2.9%	18	3.6%	53	8.7%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	29	0.7%	9	1.8%	13	2.1%
<b>Tafarn</b>	91	2.3%	10	2.0%	21	3.5%
<b>Ar-lein</b>	3033	77.7%	344	69.5%	381	62.9%
<b>Amrywiol</b>	233	6.0%	40	8.1%	84	13.9%
<b>Clwb Aelodau Preifat</b>	10	0.3%	1	0.2%	5	0.8%
<b>Arall</b>	15	0.4%	1	0.2%	4	0.7%
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo*</b>	3902	100.0%	495	100.0%	606	100.0%

\*Ni chynhwyswyd categorïau statws cyflogaeth â llai na 100 o bobl sy'n gamblo yn y tabl hwn. Gweler adran 13.1.1.1 am y categorïau sydd ar gael. Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad.

## 9.9 Defnyddio dulliau hunan-eithrio

Cyflwynwyd y categori hwn i'r casgliad o ddata yn Ebrill 2021. Nodwyd y defnyddiwyd dulliau hunan-eithrio gan 73% o'r bobl sy'n gamblo a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22. Gellir defnyddio dulliau hunan-eithrio gan unigolion i roi terfynau ar eu gweithgareddau gamblo. Mae hunan-eithrio yn golygu bod unigolyn yn gofyn i weithredwr gamblo eu heithrio o gamblo gyda nhw am gyfnod penodol o amser, er enghraifft, trwy atal eu cyfrif ar-lein neu wrthod gwasanaeth mewn Siop Betio. Lle nodwyd hynny, roedd 74% yn defnyddio dull hunan-eithrio, gyda 12% yn nodi bod ganddynt y gallu i'w osgoi.

Tabl 27 Y defnydd o ddulliau hunan-eithrio

	N	%
Ydw	2673	61.3%
Ydw, ond yn gallu eu hosgoi	534	12.2%
Nac ydw	1156	26.5%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4363</b>	<b>100.0%</b>
<b>Ar goll/heb ei nodi</b>	<b>1633</b>	
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	<b>5996</b>	

## 10 Mynediad at wasanaethau

### 10.1 Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer triniaeth

Cafodd y mwyafrif o'r atgyfeiriadau eu gwneud gan y llinell gymorth gambo genedlaethol (57%) neu gan y cleientiaid eu hunain (26%). Ni chafodd y llinell gymorth gambo genedlaethol ei chyflwyno fel ffynhonnell atgyfeirio i'w chofnodi tan Ebrill 2021, ac mae'n debygol o fod wedi'i chynnwys o fewn 'hunanatgyfeiriadau' cyn hynny, gan fod hunanatgyfeirio'n cyfrif am 93% o gleientiaid yn 2020/21. Roedd GamCare/y rhwydwaith partneriaid yn cyfrif am 8% arall o'r atgyfeiriadau. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol o fewn y sector iechyd, ynghyd â gwasanaethau neu asiantaethau gofal iechyd sylfaenol neu arall yn cyfrif am 6% o'r atgyfeiriadau rhyngddynt (Tabl 28). Roedd ffynonellau eraill yn cyfrif am lai nag 1% o'r atgyfeiriadau yr un. O ran ffynonellau atgyfeirio, roeddynt yn weddol debyg rhwng pobl sy'n gambo a chleientiaid eraill, roedd cyfran uwch o gleientiaid eraill yn mynychu trwy'r llinell gymorth gambo neu trwy hunanatgyfeirio.

Tabl 28 Ffynhonnell yr atgyfeiriad o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22, yn ôl math y cleient

	Cleientiaid sy'n gambo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Y Llinell Gambo Genedlaethol</b>	3452	57.6%	554	51.5%	4006	56.7%
<b>Hunanatgyfeirio</b>	1465	24.4%	338	31.4%	1803	25.5%
<b>GamCare/y rhwydwaith partneriaid</b>	474	7.9%	92	8.6%	566	8.0%
<b>Gwasanaeth neu asiantaeth arall</b>	165	2.8%	18	1.7%	183	2.6%
<b>Gwasanaeth iechyd meddwl yn y sector annibynnol</b>	130	2.2%	4	0.4%	134	1.9%
<b>Gofal iechyd sylfaenol arall</b>	99	1.7%	3	0.3%	102	1.4%
<b>Meddyg Teulu</b>	26	0.4%	24	2.2%	50	0.7%
<b>Carchar</b>	15	0.3%	31	2.9%	46	0.7%
<b>Heb ei nodi</b>	36	0.6%	8	0.7%	44	0.6%
<b>Iechyd Meddwl Ymddiriedolaeth GIG</b>	32	0.5%	2	0.2%	34	0.5%
<b>Y Gwasanaeth Prawf</b>	22	0.4%	0	0.0%	22	0.3%
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	14	0.2%	0	0.0%	14	0.2%
<b>Yr Heddlu</b>	13	0.2%	0	0.0%	13	0.2%
<b>Sector Gwirfoddol</b>	10	0.2%	2	0.2%	12	0.2%
<b>Tîm Gweithredu Cyffuriau / Asiantaeth Camdefnyddio Cyffuriau</b>	9	0.2%	0	0.0%	9	0.1%
<b>Cyngor ar Bopeth</b>	6	0.1%	0	0.0%	6	0.1%
<b>Gofalwr</b>	6	0.1%	0	0.0%	6	0.1%
<b>Ymwelydd Iechyd</b>	6	0.1%	0	0.0%	6	0.1%
<b>Gwasanaeth Gambo'r Gogledd / LYPFT</b>	4	0.1%	0	0.0%	4	0.1%
<b>Clinig Gambo Problemus Llundain / CNWL</b>	3	0.1%	0	0.0%	3	0.0%
<b>Cymdeithas Gordon Moody (GMA)</b>	2	0.0%	0	0.0%	2	0.0%
<b>Canolfan Byd Gwaith</b>	1	0.0%	0	0.0%	1	0.0%
<b>Gwasanaeth Cysylltu a Dargyfeirio</b>	1	0.0%	0	0.0%	1	0.0%
<b>Gwasanaeth Addysg</b>	1	0.0%	0	0.0%	1	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	5992	100.0%	1076	100.0%	7068	100.0%
<b>Ar goll</b>	4		0		4	
<b>Cyfanswm y cleientiaid</b>	5996		1076		7072	



## 10.2 Yn lle y clywyd am y gwasanaeth

Cyflwynwyd y categori hwn i'r casgliad o ddata yn Ebrill 2021, a chofnodir yn lle y clywodd cleientiaid am y gwasanaeth ar gyfer cleientiaid sy'n hunanatgyfeirio yn unig. Roedd ffynonellau heblaw am y rheiny a nodwyd yn cyfrif am 36% o achosion, chwiliadau ar y rhynggrwyd am 30%, gwefan GamCare am 14% ac aelodau teulu neu ffrindiau am 10%. Nid oedd yr un o'r cleientiaid wedi adrodd eu bod wedi clywed am y gwasanaeth trwy bapur newydd neu'r radio, ac ychydig iawn ar y teledu, y cyfryngau cymdeithasol neu wefan GambleAware.

Tabl 29 Yn lle y clywyd am y gwasanaeth

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Ffynhonnell arall	461	37.0%	95	31.5%	556	35.9%
Chwiliad ar y rhynggrwyd	393	31.6%	63	20.9%	456	29.5%
Gwefan GamCare	182	14.6%	35	11.6%	217	14.0%
Aelod teulu neu ffrind	89	7.1%	70	23.2%	159	10.3%
Gweithiwr proffesiynol arall	81	6.5%	26	8.6%	107	6.9%
Gwefan arall	28	2.2%	11	3.6%	39	2.5%
Gwefan BeGambleAware	6	0.5%	0	0.0%	6	0.4%
Cyfryngau Cymdeithasol	4	0.3%	1	0.3%	5	0.3%
Teledu	1	0.1%	1	0.3%	2	0.1%
Papur newydd	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Radio	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	1245	100.0%	302	100.0%	1547	100.0%
<b>Ar goll</b>	220		36		256	
<b>Cyfanswm y cleientiaid a hunanatgyfeiriwyd</b>	1465		338		1803	


## 10.3 Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf

Cyfrifwyd yr amser aros fel yr amser rhwng dyddiad yr atgyfeiriad a'r apwyntiad cyntaf a gofnodwyd. O ran cleientiaid a driniwyd yn ystod 2021/22, cafodd 50% o'r cleientiaid apwyntiad o fewn pum diwrnod, a 75% o fewn deuddeg diwrnod. Roedd amseroedd disgwyl ar gyfer gwasanaethau preswyl yn uwch, gyda 50% o gleientiaid yn cael eu gweld o fewn chwe wythnos.

## 11 Ymgysylltiad

Cofnodwyd cyfanswm o 55,853 o apwyntiadau ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22 (Tabl 30). Mae hyn yn cynrychioli canolrif o saith apwyntiad fesul cleient, sydd yn union yr un fath ar gyfer bobl sy'n gamblo a chleientiaid eraill.

**Ffigur 6 Dosbarthiad nifer yr apwyntiadau a gofnodwyd**



Roedd y mwyafrif o'r apwyntiadau hyn (79%) ar gyfer cael triniaeth, gyda 18% ar gyfer cynnal asesiad.

**Tabl 30 Diben yr apwyntiad ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22**

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Triniaeth</b>	29100	77.5%	5195	83.0%	34295	78.3%
<b>Asesiad</b>	6831	18.2%	1008	16.1%	7839	17.9%
<b>Adolygu yn unig</b>	767	2.0%	18	0.3%	785	1.8%
<b>Adolygu a thriniaeth</b>	432	1.1%	15	0.2%	447	1.0%
<b>Asesu a thriniaeth</b>	282	0.8%	12	0.2%	294	0.7%
<b>Ôl-ofal</b>	99	0.3%	1	0.0%	100	0.2%
<b>Apwyntiad dilynol strwythuredig ffurfiol</b>	29	0.1%	7	0.1%	36	0.1%
<b>Arall</b>	26	0.1%	0	0.0%	26	0.1%
<b>Ymyriad Byr Estynedig (EBI)</b>	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	37566	100.0%	6256	100.0%	43822	100.0%
<b>Ar goll</b>	10789		1242		12031	
<b>Cyfanswm yr apwyntiadau</b>	48355		7498		55853	

Â hynny'n amlwg yn adlewyrchu amodau'r pandemig, cynhaliwyd y mwyafrif (90%) o'r apwyntiadau o bell, dros y ffôn (77%), camera gwe (13%) neu blatfform arall o bell (1%) gyda dim ond 8% yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb (ac 1% yn nodi 'arall'). Mae hyn yn amlygu cynnydd mewn apwyntiadau o bell hyd yn oed o gymharu â 2020/21.

Cyflwynwyd categorïau newydd o ran 'math yr apwyntiadau' yn Ebrill 2021, sef CBT (Therapi Gwybyddol Ymddygiadol / 'Cognitive Behavioural Therapy'), Seicogymdeithasol strwythuredig, 5 Cam ('5 Step'), Therapi Seicodynamig, Ffarmacolegol, Cyfweld Ysgogiadol, DBT (Therapi Ymddygiad Dialectig / 'Dialectical behaviour therapy'), ACT (Therapi Derbyn ac Ymrwymo / 'Acceptance and commitment therapy'), EMDR (Dadsensiteiddio ac ailbroseu symudiadau'r llygaid / 'Eye movement desensitisation and reprocessing'). Disgrifir y mwyafrif o apwyntiadau (58%) bellach fel rhai 'seicogymdeithasol strwythuredig' (58%). Roedd 19% arall ar gyfer CBT (Therapi Gwybyddol Ymddygiadol) a 12% ar gyfer cyfweld ysgogiadol (Tabl 31). Yn flaenorol, roedd y mwyafrif o apwyntiadau (97% yn 2020/21) ar gyfer gweithgaredd cwnsela diffiniedig.


Tabl 31 Ymyriadau a dderbyniwyd mewn apwyntiadau yn 2021/22

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Seicogymdeithasol Strwythuredig</b>	26133	58.6%	4146	56.4%	30279	58.3%
<b>CBT (Therapi Gwybyddol Ymddygiadol)</b>	8801	19.7%	1261	17.2%	10062	19.4%
<b>Cyfweld Ymddygiadol</b>	5292	11.9%	784	10.7%	6076	11.7%
<b>Cyngor byr</b>	1730	3.9%	328	4.5%	2058	4.0%
<b>Arall</b>	1024	2.3%	60	0.8%	1084	2.1%
<b>Cwnsela</b>	844	1.9%	0	0.0%	844	1.6%
<b>5 Cam</b>	113	0.3%	565	7.7%	678	1.3%
<b>Seicotherapi</b>	268	0.6%	197	2.7%	465	0.9%
<b>Therapi Seicodynamig</b>	330	0.7%	10	0.1%	340	0.7%
<b>EMDR (Dadsensiteiddio ac ailbroseu symudiadau'r llygaid)</b>	35	0.1%	0	0.0%	35	0.1%
<b>DBT (Therapi Ymddygiad Dialectig)</b>	9	0.0%	0	0.0%	9	0.0%
<b>Ffarmacolegol</b>	6	0.0%	0	0.0%	6	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	44585	100.0%	7351	100.0%	51936	100.0%
<b>Ar goll</b>	3770		147		3917	
<b>Cyfanswm yr apwyntiadau</b>	57800		9349		67149	

## 11.1 Cyfnod yr amser yn derbyn triniaeth

Ymysg y rheiny a oedd wedi derbyn a gorffen eu triniaeth o fewn 2021/22, roedd eu triniaeth yn para am ganolrif o ddeg wythnos. Derbyniodd chwarter y cleientiaid driniaeth am bum wythnos neu lai, derbyniodd hanner y cleientiaid driniaeth am rhwng chwech a 16 wythnos ac roedd chwarter ohonynt wedi derbyn triniaeth am dros 16 wythnos. Roedd cyfnodau'r driniaeth ar gyfer cleientiaid eraill ar wahân i bobl sy'n gamblo yn fyrrach, gyda chanolrif o 9 wythnos o gymharu â 10 wythnos ar gyfer bobl sy'n gamblo. Yn gyffredinol, roedd cyfnodau triniaeth mewn canolfannau preswyl yn hirach, â'r rheiny'n para am ganolrif o 20 wythnos.

FFfigur 7 Dosbarthiad nifer yr wythnosau yn derbyn triniaeth



## 12 Canlyniadau triniaeth

Ymysg y cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2021/22, roedd 1,895 (27%) yn dal i dderbyn triniaeth ddiwedd Mawrth 2022, tra bo 5,177 (73%) wedi gadael y driniaeth cyn diwedd Mawrth 2022. Cyflwynwyd canlyniadau'r driniaeth ar gyfer y cleientiaid hynny a ryddhawyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 er mwyn cynrychioli eu statws ar ddiwedd y driniaeth.

### 12.1 Y rhesymau dros adael triniaeth

Roedd mwyafrif y cleientiaid (63%) a oedd wedi gadael eu triniaeth o fewn 2021/22 wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd. Fodd bynnag, roedd 30% wedi rhoi'r gorau i'r driniaeth cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen. Cafodd cyfrannau llawer is ohonynt eu hatgyfeirio ymlaen at wasanaeth arall (6%) neu eu ryddhau neu hatgyfeirio ymlaen yn dilyn asesiad, heb dderbyn triniaeth (1%). Roedd cleientiaid eraill ar wahân i bobl sy'n gamblo yn fwy tebygol o gwblhau triniaeth (76% o gymharu â 60%) ac yn llai tebygol o roi'r gorau iddi (21% o gymharu â 31%).

Tabl 32 Rhesymau dros adael triniaeth o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2021/22

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd</b>	2640	60.4%	607	75.8%	3247	62.8%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi rhoi'r gorau i driniaeth (dirwyn i ben heb ei drefnu)</b>	1356	31.0%	169	21.1%	1525	29.5%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi atgyfeirio at wasanaeth arall</b>	276	6.3%	11	1.4%	287	5.5%
<b>Wedi cael triniaeth - Ddim yn hysbys</b>	51	1.2%	4	0.5%	55	1.1%
<b>Wedi'i asesu - Wedi'i ryddhau trwy gytundeb ar y cyd yn dilyn cael cyngor a chymorth</b>	37	0.8%	10	1.2%	47	0.9%
<b>Wedi'i asesu - Ddim yn hysbys</b>	8	0.2%	0	0.0%	8	0.2%
<b>Wedi'i asesu - Atgyfeiriwyd at wasanaeth therapi arall trwy gytundeb ar y cyd</b>	4	0.1%	0	0.0%	4	0.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4372</b>		<b>801</b>		<b>5173</b>	
<b>Ar goll</b>	<b>4</b>		<b>0</b>		<b>4</b>	
<b>Cyfanswm y cleientiaid</b>	<b>4376</b>		<b>801</b>		<b>5177</b>	

Nodwyd rhai gwahaniaethau bach o ran y rheswm dros adael triniaeth ymysg cleientiaid gwryw a benyw, gyda chyfran fwy o gleientiaid benyw yn rhoi'r gorau i driniaeth (26% o gymharu â 31% o wrywod). Fodd bynnag, o ran cleientiaid sy'n gamblo'n unig, roedd cyfran gyfartal o gleientiaid gwryw a benyw yn rhoi'r gorau i driniaeth.

Roedd cyfran uwch o'r rheiny a oedd yn ddi-waith (36%) wedi rhoi'r gorau i driniaeth (Tabl 33), ond y rheiny a oedd yn gyflogedig a oedd fwyaf tebygol o gwblhau triniaeth (64%). Roedd niferoedd y rheiny a oedd yn rhoi'r gorau i driniaeth yn lleihau fel yr oedd cleientiaid yn mynd yn hŷn, yn gostwng o 36% ymysg y rheiny o dan 30 oed i 21% ymysg y rheiny dros 50 oed. Roedd y cyfraddau cwblhau yn uwch ymysg y rheiny a oedd mewn perthynas (64% o gymharu â 58% nad ydynt mewn perthynas) ac ymysg benywod (66% o gymharu â 61% ar gyfer gwrywod).

Tabl 33 Rhesymau dros adael triniaeth yn ôl statws cyflogaeth (ymysg cleientiaid sy'n gamblo)

	Cyflogedig		Di-waith		Salwch/anabledl hirdymor a ddim yn gweithio	
	N	%	N	%	N	%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd</b>	1880	63.5%	198	51.7%	244	55.2%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi rhoi'r gorau i driniaeth (dirwyn i ben heb ei drefnu)</b>	943	31.9%	139	36.3%	107	24.2%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi atgyfeirio at wasanaeth arall</b>	123	4.2%	42	11.0%	80	18.1%
<b>Wedi'i asesu - Wedi'i ryddhau trwy gytundeb ar y cyd yn dilyn cael cyngor a chymorth</b>	12	0.4%	4	1.0%	9	2.0%
<b>Wedi'i asesu - Atgyfeiriwyd at wasanaeth therapi arall trwy gytundeb ar y cyd</b>	2	0.1%	0	0.0%	2	0.5%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2960</b>	<b>100.0%</b>	<b>383</b>	<b>100.0%</b>	<b>442</b>	<b>100.0%</b>

\*Ni chynhwyswyd categorïau statws cyflogaeth â llai na 100 o gleientiaid yn y tabl hwn. Gweler adran 13.1.1.1 am y categorïau sydd ar gael.

Tabl 34 Rhesymau dros adael triniaeth yn ôl oedran (ymysg cleientiaid sy'n gamblo)

	O dan 30		30-39		40-49		50 a throsodd	
	N	%	N	%	N	%	N	%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd</b>	740	57.1%	1012	58.5%	501	63.7%	386	69.4%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi rhoi'r gorau i driniaeth (dirwyn i ben heb ei drefnu)</b>	464	35.8%	573	33.1%	204	26.0%	114	20.5%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi atgyfeirio at wasanaeth arall</b>	63	4.9%	108	6.2%	62	7.9%	43	7.7%
<b>Wedi'i asesu - Wedi'i ryddhau trwy gytundeb ar y cyd yn dilyn cael cyngor a chymorth</b>	10	0.8%	18	1.0%	7	0.9%	2	0.4%
<b>Wedi'i asesu - Atgyfeiriwyd at wasanaeth therapi arall trwy gytundeb ar y cyd</b>	1	0.1%	0	0.0%	1	0.1%	2	0.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1297</b>	<b>100.0%</b>	<b>1731</b>	<b>100.0%</b>	<b>786</b>	<b>100.0%</b>	<b>556</b>	<b>100.0%</b>

Ymysg cleientiaid a oedd yn gamblo, roedd y rhesymau dros adael triniaeth yn amrywio yn ôl y prif weithgaredd gamblo. Roedd 62% o'r rheiny a oedd yn nodi gwasanaethau ar-lein wedi cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 53% o'r rheiny a oedd yn nodi siopau betio.

## 12.2 Sgorau difrifoldeb

Caiff dau fesur difrifoldeb eu cofnodi'n rheolaidd o fewn apwyntiadau, sef y Mynegrif Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI) a gofnodir ar gyfer pobl sy'n gamblo'n unig, a'r sgôr CORE-10, a gofnodir ar gyfer pob cleient. Gofynnir i gleientiaid yn uniongyrchol am eu hymatebion.

### MDGP

Mae'r MDGP yn offeryn<sup>9</sup> wedi'i ddilysu a ddefnyddir yn eang, sydd wedi'i ddylunio i asesu lefel unigolyn o ymddygiad sy'n peri risg o ganlyniad i gamblo. Mae'r MDGP yn cynnwys naw eitem, y caiff pob un ei sgorio ar raddfa pedwar pwynt (0, 1, 2, neu 3) sy'n rhoi cyfanswm sgôr o rhwng sero a 27 pwynt (gweler yr atodiad, 13.2 am ragor o fanylion).

Defnyddir sgôr MDGP o wyth neu ragor i ddsbarthu unigolyn sydd ag ymddygiad gamblo problemus, a ddiffinnir gan y raddfa fel 'gamlwr problemus'. Mae sgorau o rhwng tri a saith yn cynrychioli unigolion y dosbarthir eu bod yn 'gamlwr â risg canolig' yn ôl y raddfa (y rheiny sy'n profi lefel ganolig o broblemau sy'n arwain at rai canlyniadau negyddol). Mae sgôr o un neu ddau yn cynrychioli unigolion y dosbarthir gan y sgôr eu bod yn ymgymryd â gamblo â risg isel (y rheiny sy'n profi lefel isel o broblemau, gydag ychydig neu ddim canlyniadau negyddol wedi'u nodi). Felly, mae unrhyw un sy'n sgorio un neu ragor ar y raddfa yn profi rhyw lefel o anhawster neu broblem. Mae sgôr o sero yn cynrychioli unigolyn nad yw'n profi unrhyw broblemau, niwed neu ganlyniadau o ganlyniad i gamblo.

### CORE-10

Mae'r Core-10 yn holiadur 10-eitem a ddyluniwyd i fesur gofid, gan gynnwys symptomau a brofir yn gyffredin sef gorbryder ac iselder ac agweddau cysylltiedig bywyd a gweithredu cymdeithasol ('social functioning')<sup>10 11</sup>. Ceir 10 eitem o fewn y Core-10, sy'n cynnwys gorbryder (2 eitem), iselder (2 eitem), trawma (1 eitem), problemau corfforol (1 eitem), gweithredu cymdeithasol (3 eitem – dydd i ddydd, perthnasau agos, perthnasau cymdeithasol) ynghyd â risg rhywun i'w hun (1 eitem). Caiff eitemau'r Core-10 eu sgorio'n unigol ar raddfa bum pwynt (0, 1, 2, 3 neu 4) a'u symio i roi cyfanswm sgôr o 40 (gweler yr atodiad, 13.3 am ragor o fanylion).

Defnyddir sgôr Core-10 o 25 a throsodd i ddsbarthu unigolyn fel rhywun sy'n dioddef gofid seicolegol difrifol, mae sgôr o 21 i 25 yn cyfateb i ofid canolig i ddifrifol, mae sgôr o 16 i 20 yn cyfateb i ofid canolig, mae sgôr o 11 i 15 yn cyfateb i ofid ysgafn, ac mae sgôr o 0 i 10 yn ddsbarthu rhywun sy'n is na'r torbwynt clinigol ar gyfer gofid seicolegol.

### 12.2.1 Y sgorau sylfaenol a'r rhai diweddaraf ar gyfer difrifoldeb

Yn yr asesiad MDGP cynharaf ar gyfer pobl sy'n gamblo a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2021/22, cofnodwyd sgorau MDGP ar gyfer 94% o'r sgorau a ddsbarthwyd a ddangosir yn Ffigur 8. Ymysg y rhain (Tabl 35), roedd y mwyafrif (90%) yn cofnodi sgôr MDGP o 8 neu ragor. Diffiniwyd bod gan gyfrannau llawer llai risg canolig (7%), risg isel (1%) neu ddim problem (2%). Ymysg y rheiny yn y categori MDGP uchaf (8+), y sgôr MDGP cymedrig oedd 19, sydd gryn dipyn yn uwch na'r lleiafswm o wyth ar gyfer y categori hwn.

<sup>9</sup> Mae'r MDGP yn adnodd sgrinio wedi'i ddilysu ar lefel poblogaeth. Dylid nodi na chafodd y MDGP ei ddylunio fel adnodd clinigol, neu fel mesur canlyniadau ar gyfer triniaeth. Ni ellir dehongli'r MDGP yn uniongyrchol fel meincnod ar gyfer effeithiolrwydd triniaeth, gan na ellir cipio canlyniadau tymor hwy. Yn ychwanegol at hynny, nid yw'n pwysoli mathau o niwed; mae'n fesur procsi o niwed. Yn ogystal, dadleuir ei fod yn defnyddio iaith a theminoleg sy'n stigmateiddio o ran y modd y mae'n categoreiddio amryw lefelau o niwed a brofir o ganlyniad i gamblo. Fodd bynnag, yn absenoldeb mesur clinigol sydd wedi'i gytuno'n gyffredinol, mae'r MDGP yn darparu dangosydd ar gyfer niwed gamblo a gydnabyddir yn rhyngwladol.


<sup>10</sup> CORE-10 USER MANUAL Fersiwn 1.0 Rhyddhawyd Mehefin 1af, 2007.

<sup>11</sup> The CORE-10: A short measure of psychological distress for routine use in the psychological therapies <https://Ar-leinlibrary.wiley.com/doi/abs/10.1080/14733145.2012.729069>

Tabl 35 Categori difrifoldeb MDGP yn yr asesiad MDGP cynharaf, ar gyfer pob unigolyn sy'n gamblo

	Yr asesiad MDGP cynharaf		
	N	%	Sgôr cymedrig
<b>Dim problem (0)</b>	95	1.7%	0
<b>Risg isel (1-2)</b>	80	1.4%	2
<b>Risg canolig (3-7)</b>	400	7.1%	5
<b>Sgôr o 8+</b>	5039	89.8%	19
<b>Cyfanswm</b>	5614	100.0%	
<b>Ar goll</b>	382		
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	5996		

Ffigur 8 Dosbarthiad sgôr MDGP yn yr asesiad MDGP cynharaf



O ran y sgôr diweddaraf a nodwyd (Tabl 36), roedd cyfran lai o gleientiaid (28%) yn dal i fod â sgôr MDGP o 8+. Erbyn hynny, roedd tua thri o bob deg o bobl sy'n gamblo (28%) yn cael eu diffinio bellach fel rhai nad oedd ganddynt unrhyw ymddygiad sy'n peri risg o ganlyniad i gamblo, a diffiniwyd bod gan y gweddill naill ai risg isel (22%) neu ganolig (22%) o ymddygiad sy'n peri risg o ganlyniad i gamblo.


Tabl 36 Categori risg MDGP ar adeg yr asesiad MDGP cynharaf a'r diweddaraf, ar gyfer pobl sy'n gamblo sy'n gadael triniaeth

	Asesiad MDGP cynharaf			Asesiad MDGP diweddaraf		
	N	%	Sgôr cymedrig	N	%	Sgôr cymedrig
<b>Dim problem (0)</b>	64	1.5%	0	1205	27.8%	0
<b>Risg isel (1-2)</b>	50	1.1%	2	954	22.0%	1
<b>Risg canolig (3-7)</b>	294	6.7%	5	942	21.7%	5
<b>Sgôr o 8+</b>	3925	89.7%	19	1232	28.4%	16
<b>Cyfanswm</b>	4333	100.0%		4333	100.0%	
<b>Ar goll</b>	43			43		
<b>Cyfanswm y bobl sy'n gamblo</b>	4376			4376		



O ran tua 70% o'r rheiny â sgôr MDGP o 8+ yn y mesur cynharaf, nid oeddynt mwyach yn cofnodi sgôr o 8+ yn yr un diweddaraf, gyda 26% yn cael eu diffinio erbyn hynny bod ganddynt 'ddim problem'. O ran y rheiny sy'n cwblhau triniaeth, nid oedd 87% ohonynt mwyach yn cofnodi sgôr o 8+ erbyn hynny, gyda 37% yn cael eu diffinio erbyn hynny bod ganddynt 'ddim problem'. Dengys Ffigur 9 sut yr oedd categori MDGP cleientiaid wedi newid o'r asesiad MDGP a gofnodwyd i'r un diweddaraf

**Ffigur 9 Y statws MDGP cynharaf wedi'i fapio hyd at y statws MDGP diweddaraf (n=4333)**




## CORE-10

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cyntaf ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2021/22, cofnodwyd sgorau CORE-10 ar gyfer 86% o'r cleientiaid (dangosir dosbarthiad y sgôr yn Ffigur 10). Ymysg y cleientiaid hyn, roedd y sgorau wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y categorïau difrifoldeb (Tabl 36) gyda thua un o bob pump o gleientiaid yn cael sgôr o fewn y categori difrifol (17%), canolig i ddifrifol (18%), canolig (22%) neu ysgafn (19%) a 24% yn sgorio'n is na'r torbwynt clinigol. Roedd cyfran uwch o bobl sy'n gamblo yn cofnodi sgôr o fewn y categori difrifol na chleientiaid eraill (19% o gymharu â 9%). O fewn y categori difrifol, roedd y sgorau cymedrig yn 30 ar gyfer pobl sy'n gamblo, ac yn 29 ar gyfer cleientiaid eraill.

Tabl 37 Categori difrifoldeb CORE-10 yn yr apwyntiad cynharaf

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Is na'r torbwynt clinigol</b>	1194	23.5%	252	26.2%	1446	23.9%
<b>Ysgafn</b>	925	18.2%	208	21.6%	1133	18.7%
<b>Canolig</b>	1063	20.9%	264	27.5%	1327	21.9%
<b>Canolig ddirifol</b>	958	18.8%	150	15.6%	1108	18.3%
<b>Difrifol</b>	945	18.6%	87	9.1%	1032	17.1%
<b>Cyfanswm</b>	5085	100.0%	961	100.0%	6046	100.0%
<b>Ar goll</b>	911		115		1026	
<b>Cyfanswm y cleientiaid</b>	5996		1076		7072	

Ffigur 10 Dosbarthiad y sgôr CORE-10 yn yr asesiad CORE-10 cynharaf




Dengys Tabl 38 y categori difrifoldeb diweddaraf a gofnodwyd ar adeg triniaeth (gweler Tabl 37 am y cynharaf). Ar y pwynt hwn, diffiniwyd bod y mwyafrif o gleientiaid (65%) yn 'is na'r torbwynt clinigol', gyda 15% yn cael eu diffinio o fewn y categori ysgafn, 10% yn ganolig, 6.3% yn ganolig i ddirifol, a 5% yn 'ddifrifol'. Dengys Ffigur 11 a Ffigur 13 sut yr oedd y categori Core-10 wedi newid o'r asesiad cynharaf i'r un diweddaraf


Tabl 38 Y categori difrifoldeb CORE-10 diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Is na'r torbwynt clinigol</b>	2775	64.0%	527	67.2%	3302	64.5%
<b>Ysgafn</b>	620	14.3%	126	16.1%	746	14.6%
<b>Canolig</b>	407	9.4%	78	9.9%	485	9.5%
<b>Canolig ddirifol</b>	294	6.8%	30	3.8%	324	6.3%
<b>Difrifol</b>	243	5.6%	23	2.9%	266	5.2%
<b>Cyfanswm</b>	4339	100.0%	784	100.0%	5123	100.0%

**Ffigur 11 Y statws CORE-10 cynharaf wedi'i fapio hyd at y statws CORE-10 diweddaraf – pobl sy'n gamblo (n=4339)**



**Ffigur 12 Y statws CORE-10 cynharaf wedi'i fapio hyd at y statws CORE-10 diweddaraf – Cleientiaid eraill (n=784)**



## 12.2.2 Newid mewn sgorau difrifoldeb

Gan fod sgorau MDGP a CORE-10 yn cael eu cofnodi'n gyson, mae'n bosib adrodd am unrhyw newidiadau i'r sgorau hyn yn ystod y driniaeth. Defnyddir tri dull yma i adrodd y newidiadau yn y sgorau: lefel y newid yn y sgorau, cyfeiriad y newid yn y sgorau, a newidiadau rhwng categorïau difrifoldeb. Caiff newidiadau eu hadrodd fel y rheiny rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf o fewn y cyfnod diweddaraf o driniaeth a dderbynnir gan gleient. Felly, os derbyniodd cleient sawl cyfnod o driniaeth (gan un neu ragor o ddarparwyr), efallai na fydd y sgorau'n adlewyrchu'r newid cronol dros ei hanes cyfan o driniaeth.

### 12.2.2.1 MDGP

Rhwng y sgorau MDGP cynharaf a'r rhai diweddaraf, roedd cleientiaid wedi cyflawni gostyngiad (gwelliant) o 12 pwynt ar raddfa'r MDGP.

Mae Tabl 38 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newydd mewn sgorau MDGP, gyda'r mwyafrif (80%) yn gwella, roedd 18% yn dangos dim newid, a lleiafrif bach (3%) yn cofnodi sgôr uwch yn yr apwyntiad diweddaraf o gymharu â'r sgorau cynharaf. Roedd cyfran fwyaf y cleientiaid (36%) wedi cyflawni gwelliant o 10–19 pwynt, gyda chwarter (25%) arall yn cyflawni gwelliant o 20–27 pwynt<sup>12</sup>.

Dengys Tabl 39 y newidiadau hyn yn y sgôr MDGP yn ôl y rheswm dros ryddhau cleifion o driniaeth. Roedd cyfran uwch o'r rheiny nad oedd wedi cwblhau eu triniaeth yn cofnodi dim newid o ran sgôr (34% ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i'w triniaeth o gymharu â 6% ar gyfer y rheiny sydd wedi'i chwblhau). O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (92%). Hefyd, roedd lefel yn newid yn gwahaniaethu yn ôl y rheswm dros ryddhau cleifion, gyda chanolrif o 15 pwynt ar gyfer y rheiny a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â saith ar gyfer y rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi cyn ei chwblhau.

**Tabl 39 Newidiadau mewn sgôr MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf**

	N	%
<b>Gwelliant o 20- 27 pwynt</b>	1071	24.7%
<b>Gwelliant o 10- 19 pwynt</b>	1548	35.7%
<b>Gwelliant o 1- 9 pwynt</b>	833	19.2%
<b>Dim Newid</b>	760	17.5%
<b>Wedi cynyddu: 1 i 9 pwynt</b>	109	2.5%
<b>Wedi cynyddu: 10 i 18 pwynt</b>	11	0.3%
<b>Wedi cynyddu: 19 i 27 pwynt</b>	1	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4333</b>	<b>100.0%</b>
<b>Ar goll</b>	<b>43</b>	
<b>Cyfanswm</b>	<b>4376</b>	

<sup>12</sup> Caiff y categorïau eu dylunio er mwyn grwpio lefel y newid yn gyfartal o fewn yr ystod o werthoedd, ac nid ydynt yn cynrychioli categorïau difrifoldeb ffurfiol

**Tabl 40 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau**

	Gwaeth		Dim newid		Gwell	
	N	%	N	%	N	%
<b>Wedi'i asesu – Wedi'i ryddhau trwy gytundeb ar y cyd yn dilyn cael cyngor a chymorth</b>	2	5.4%	12	32.4%	23	62.2%
<b>Wedi'i asesu – Atgyfeiriwyd at wasanaeth therapi arall trwy gytundeb ar y cyd</b>	0	0.0%	2	66.7%	1	33.3%
<b>Wedi cael triniaeth – Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd</b>	51	1.9%	156	5.9%	2419	92.1%
<b>Wedi cael triniaeth – Wedi rhoi'r gorau i driniaeth (dirwyn i ben heb ei drefnu)</b>	54	4.1%	455	34.1%	824	61.8%
<b>Wedi cael triniaeth – Wedi atgyfeirio at wasanaeth arall</b>	13	4.7%	114	41.5%	148	53.8%
<b>Wedi'i asesu – Ddim yn hysbys</b>	0	0.0%	6	75.0%	2	25.0%
<b>Wedi cael triniaeth – Ddim yn hysbys</b>	1	2.1%	13	27.1%	34	70.8%

### 12.2.2.2 CORE-10

Rhwng yr asesiad CORE-10 cynharaf a'r diweddaraf o fewn y driniaeth pryd y cofnodwyd sgorau CORE-10 ar eu cyfer, gwelwyd fod sgorau'r cleientiaid wedi lleihau (gwella), o ran bod gostyngiad o 7 pwynt ar y raddfa CORE-10 scale (8 pwynt o ran pobl sy'n gamblo, a 6 phwynt o ran cleientiaid ar wahân i bobl sy'n gamblo).

Mae Tabl 40 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau CORE-10. Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid (74%) yn gweld gostyngiad yn ystod y driniaeth, roedd 17% yn dangos dim newid, a lleiafrif (9%) yn gweld cynnydd o ran y sgôr CORE-10. Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid (64%) yn cofnodi gwelliant o rhwng 1 ac 20 pwynt. Cyflawnwyd y lefel welliant fwyaf cyffredin (1-10 pwynt) gan 37% o'r cleientiaid. Roedd cyfran uwch o bobl sy'n gamblo wedi cyflawni gwelliant o fwy nag 20 pwynt (11% o gymharu â 5% ar gyfer cleientiaid eraill)<sup>13</sup>.

Dengys Tabl 41 y newidiadau hyn o ran sgôr CORE-10 yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid o driniaeth. Roedd diffyg newid mewn sgôr yn llawer mwy tebygol o ran y rheiny nad oeddent wedi cwblhau eu triniaeth (36% ar gyfer y rheiny a oedd wedi'i rhoi'r gorau iddi o gymharu â 7% ar gyfer y rheiny a oedd wedi'i chwblhau). O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (86%).

<sup>13</sup> Mae'r categorïau hyn yn grwpio lefel y newid yn gyfartal ar draws yr ystod o werthoedd posibl, ac nid ydynt yn cynrychioli categorïau difrifoldeb ffurfiol.

Tabl 41 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf

	Cleientiaid sy'n gamblo		Cleientiaid eraill		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
<b>Gwelliant o 31-40 pwynt</b>	39	0.9%	1	0.1%	40	0.8%
<b>Gwelliant o 21-30 pwynt</b>	439	10.1%	39	5.0%	478	9.3%
<b>Gwelliant o 11-20 pwynt</b>	1184	27.3%	200	25.5%	1384	27.0%
<b>Gwelliant o 1-10 pwynt</b>	1523	35.1%	366	46.7%	1889	36.9%
<b>Dim newid</b>	774	17.8%	117	14.9%	891	17.4%
<b>Cynnydd o 1-10 pwynt</b>	352	8.1%	56	7.1%	408	8.0%
<b>Cynnydd o 11-20 pwynt</b>	25	0.6%	5	0.6%	30	0.6%
<b>Cynnydd o 21-30 pwynt</b>	3	0.1%	0	0.0%	3	0.1%
<b>Cynnydd o 31-40 pwynt</b>	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	4339	100.0%	784	100.0%	5123	100.0%

Tabl 42 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau

	Gwaeth		Dim newid		Gwell	
	N	%	N	%	N	%
<b>Wedi'i asesu – Wedi'i ryddhau trwy gytundeb ar y cyd yn dilyn cael cyngor a chymorth</b>	5	10.6%	12	25.5%	30	63.8%
<b>Wedi'i asesu – Atgyfeiriwyd at wasanaeth therapi arall trwy gytundeb ar y cyd</b>	1	33.3%	2	66.7%	0	0.0%
<b>Wedi cael triniaeth - Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd</b>	228	7.1%	213	6.6%	2783	86.3%
<b>Wedi cael triniaeth – Wedi rhoi'r gorau i driniaeth (dirwyn i ben heb ei drefnu)</b>	167	11.1%	533	35.6%	799	53.3%
<b>Wedi cael triniaeth – Wedi atgyfeirio at wasanaeth arall</b>	32	11.2%	114	39.9%	140	49.0%
<b>Wedi'i asesu – Ddim yn hysbys</b>	0	0.0%	6	75.0%	2	25.0%
<b>Wedi cael triniaeth – Ddim yn hysbys</b>	8	15.1%	9	17.0%	36	67.9%

## 13 Tueddiadau

### 13.1 Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth


Dengys Tabl 43 a Ffigur 13 y modd y mae nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth bob blwyddyn wedi amrywio ers 2015/16, gyda nifer uchaf y cleientiaid yn cael triniaeth yn 2019/20. Rhwng 2020/21 a 2021/22 cafwyd gostyngiad o 17% yn nifer y cleientiaid a dderbyniodd driniaeth.

Mae nifer yr unigolion a gaiff eu hatgyfeirio bob blwyddyn (gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn mynd ymlaen i dderbyn triniaeth) wedi amrywio ers 2015/16, gyda nifer uchaf y cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio yn ystod 2019/20. Rhwng 2020/21 a 2021/22, cafwyd gostyngiad o 18% yn nifer yr atgyfeiriadau.

**Tabl 43 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael eu hatgyfeirio ac yn derbyn triniaeth bob blwyddyn – 2015/16 i 2021/22**

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
<b>Cleientiaid sy'n derbyn triniaeth</b>	5909	8133	8219	7675	9008	8490	7072
<b>Unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio</b>	8194	9266	9081	8453	9726	9046	7429

**Ffigur 13 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael eu hatgyfeirio ac yn derbyn triniaeth – 2015/16 i 2021/22**



Mae gwasanaethau gamblo'n darparu pwynt cyswllt a chymorth ar gyfer cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo, ynghyd â'r rheiny a effeithir gan arferion gamblo rhywun arall. Dengys Tabl 43 bod cyfran y cleientiaid sy'n ceisio cymorth o ganlyniad i arferion gamblo rhywun arall wedi cynyddu o 10% yn 2015/16 i 14% yn 2021/22.

Tabl 44 Tueddiadau o ran y rheswm dros atgyfeirio – 2015/16 i 2021/22

	2015/16		2016/17		2017/18		2018/19		2019/20		2020/21	
	N	%	N	%	N	%	N	%	N	%	N	%
<b>Cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo</b>	5288	90.2%	7293	90.7%	7337	90.1%	6744	88.7%	7473	84.3%	7191	84.7%
<b>Rhai eraill a effeithir</b>	563	9.6%	744	9.2%	790	9.7%	834	11.0%	1192	13.4%	1245	14.7%
<b>Unigolyn mewn perygl o ddatblygu problem gamblo</b>	9	0.2%	7	0.1%	15	0.2%	25	0.3%	202	2.3%	53	0.6%
<b>Ar goll</b>	49		89		77		72		141		1	
<b>Cyfanswm y cleientiaid</b>	5909		8133		8219		7675		9008		8490	

## 13.2 Tueddiadau o ran math y gamblo

Y gwahaniaeth mwyaf nodedig a adroddwyd o ran lleoliadau gamblo (yn seiliedig ar dri phrif weithgaredd) rhwng 2015/16 a 2021/22 (Tabl 44) fu'r cynnydd yng nghyfran y cleientiaid sy'n adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein (a oedd wedi codi o 57% i 75%) ochr yn ochr â'r gostyngiad yn y gyfran sy'n defnyddio siopau betio (sydd wedi gostwng o 56% i 31%). Dengys data ar gyfer 2021/22 gynnydd cyffredinol yn y defnydd o leoliadau a fynychir gan gleientiaid 'yn bersonol', o gymharu â'r gwerthoedd isel a gofnodwyd yn 2020/21. Gall amodau Covid-19, gan gynnwys y cyfnodau clo achlysurol, fod wedi effeithio'r adroddiadau ar gyfer 2020/21 a 2021/22.

Tabl 45 Tueddiadau o ran lleoliadau gamblo – 2015/16 i 2021/22

	2015/16		2016/17		2017/18		2018/19		2019/20		2020/21		2021/22	
	N	%	N	%	N	%	N	%	N	%	N	%	N	%
<b>Siopau Betio</b>	2858	56.1%	3564	50.7%	3219	45.5%	2817	42.8%	2740	38.0%	1902	28.8%	1741	30.3%
<b>Safleoedd Bingo</b>	101	2.0%	120	1.7%	114	1.6%	110	1.7%	110	1.5%	84	1.3%	101	1.8%
<b>Casino</b>	614	12.1%	776	11.0%	680	9.6%	589	9.0%	669	9.3%	433	6.6%	495	8.6%
<b>Digwyddiadau byw</b>	45	0.9%	44	0.6%	32	0.5%	25	0.4%	23	0.3%	30	0.5%	83	1.4%
<b>Canolfan Adloniant i Oedolion (arcêd 18+)</b>	197	3.9%	265	3.8%	245	3.5%	212	3.2%	269	3.7%	166	2.5%	220	3.8%
<b>Canolfan Adloniant i Deuluoedd (arcêd)</b>	62	1.2%	51	0.7%	48	0.7%	38	0.6%	41	0.6%	39	0.6%	69	1.2%
<b>Tafarn</b>	213	4.2%	234	3.3%	197	2.8%	170	2.6%	212	2.9%	131	2.0%	145	2.5%
<b>Ar-lein</b>	2890	56.8%	4214	59.9%	4666	66.0%	4331	65.9%	4956	68.8%	5206	79.0%	4291	74.7%
<b>Amrywiol</b>	604	11.9%	777	11.1%	619	8.8%	562	8.5%	526	7.3%	535	8.1%	422	7.3%
<b>Clwb aelodau preifat</b>	12	0.2%	10	0.1%	13	0.2%	12	0.2%	10	0.1%	9	0.1%	19	0.3%
<b>Arall</b>	104	2.0%	143	2.0%	155	2.2%	163	2.5%	136	1.9%	63	1.0%	23	0.4%
<b>Cyfanswm y cleientiaid</b>	5288		7293		7337		6744		7473		7191		5177	



Dengys Tabl 45 y tueddiadau o ran gweithgareddau cyffredin o fewn y tri math o leoliad gamblo a ddefnyddir fwyaf (siopau betio, casinos ac ar-lein yn unig). O fewn gweithgareddau ar-lein, mae'r defnydd o slotiau casino wedi cynyddu (yn ôl chwe phwynt canran yn 2021/22) tra bo pocer wedi gostwng yn raddol. Roedd gemau bwrdd casino wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2021/22. Roedd adroddiadau o ran y defnydd o slotiau casino yn cynrychioli cynnydd o chwe phwynt canran dros y flwyddyn flaenorol.

**Tabl 46 Tueddiadau o ran gweithgareddau gamblo unigol dewisedig – 2015/16 i 2021/22**

